

CLONC

www.clonc.co.uk

ISSN 1753-1071



9 771753 107001 >

Rhifyn 297 - 60c
Hydref 2011

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

Clonc yn ennill Eisteddfod



Tudalen 22

Cadwyn cyfrinachau yr ifanc



Tudalen 12

Muriel Lewis yn gant oed



Tudalen 2



Doedd myfyrwyr blwyddyn 12 Ysgol Gyfun Llambod ddim yn poeni am ddŵr yng Nghanolfan Gweithgareddau Llain.

Yr haul yn gwenu ar ddafad flwydd balwen Gethin Morgan, Cwmann sydd wedi cael ei dangos yn llwyddiannus iawn mewn sioeau eleni. Enillodd 1af yn ei dosbarth yn y Sioe Frenhinol ac arddangos yn Fenyw orau ac is-bencampwraig ei brid, yn ogystal â gwobrau lu mewn sioeau ar hyd a lled y gorllewin dros yr haf.

Boed law neu hindda

Rhai o'r cystadleuwyr yn adran y Defaid Mynydd Cymreig yn Sioe Cao a Llanycrwys yn brwydro'r elfennau.



200 mlwyddiant Capel Yr Erw Cellan



Cyn-aelodau, aelodau a ffrindiau Capel yr Erw, Cellan yng nghinio dathlu 200 mlwyddiant y capel yng Ngholeg Llambod yn ddiweddar.

CYFRI

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY

T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Ydych angen cymorth i gael eich materion ariannol mewn trefn?
Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:

**Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd,
Yswiriant salwch difrifol a diogelwch incwm.**

Gary Davies BSc(Hons), Cert PFS

Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Cert PFS, Cert CII(MP)

Eleri Thomas BSc(Hons), Cert PFS

Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl.
Os nad ydych yn cadw ian gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn aifeddiannu am eich cartref.

Cant oed



Dathlodd Muriel Lewis o Lanybydder ei phen-blwydd yn 100 oed.
Llongyfarchiadau ar gyrraedd pen-blwydd mor arbennig.

Gorsaf
Brawf
MOT

GAREJ BRONDEIFI



Heol Llanfair Road, Llambled, SA48 8JX

* Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio

* Teiars am brisiau cystadleuol

* Ceir newydd ac ail law ar werth

* Batris * Brecs * Egsost

* Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305

07974 422 305

Cartrefi'r Cwm Cyf

GWAITH SAER

GWAITH TO

GWAITH GOSOD LLECHI

RHEOLI PROSIECTAU

GWAITH ADEILADU CYFLAWN

ESTYNIADAU

GWAITH BLOCIAU

GOSOD BRICS




**CYFLENWI
CEGINAU AC
YSTAFELLOEDD
YMOLCHI
A'U GOSOD**

FFENESTRI UPVC

FFENESTRI A DRYSAU

PREN CALED A MEDDAL

07814 027849



**CYFLENWI
LLORIAU PREN
CALED A'U GOSOD**



LAS Recycling Ltd



*Angen Sgip?
Diwydiannol, Masnachol
neu i'r cartref.
Sgip i bob pwrpas
Rhowch alwad i ni
ar 01570 421421*

**Gwasanaeth Casglu
Gwastraff Masnachol
Newydd**

*Am wasanaeth
dibynadwy a chost
effeithiol ar gyfer eich
holl anghenion gwastraff
cysylltwch â ni ar:
01570 421421*

**Gwasanaeth Bin ar
Olwynion Newydd
(1100L, 660L a 240L)**

Ffordd Tregaron
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion
SA48 8LT

01570 421421



Pwy yw pwy?

Golygydd:

Hydref Rhian Lloyd, Awel y Môr, Ffosyffin 01545 571234
Tachwedd Elaine Davies, Penynant, Llanwnnen 480526
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tim Golygyddol: Elaine Davies, Dylan Lewis, Rhian Lloyd,
Marian Morgan a Delyth Morgans

Dylunydd y mis: Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590
e-bost: bedwyr@btopenworld.com
Teipyddion Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
Joy Lake, Llambled

Gohebwy'r Lleol:

Cellan Alwen Edwards, Awel Teifi 421001
Cwmann Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen 422922
Cwmsychbant Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Llanwenog/Drefach Mary Davies neu Eifion Davies
Ffaldybrenin/Ffarmers Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers 01558 650507
Gorsgoch Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod 434238
Llambled Janet Evans, Haulfryn 422856
Llanfair Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn 493407
Llangybi a Betws Mair Spate, Tŷ Capel Maesffynnon 493325
Llanllwni Dewi Davies, Glanafon 480218
Llanwnnen Meinir Ebbsworth, Brynamllwg 480453
Llanybydder Menna Jones, Ceginau Lifestyle 480257
Pencarreg Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf 422270

Beth yw beth?

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk
Is-Gadeirydd Marian Morgan, Glasfan, Drefach 480490
Ysgrifenyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk

Ceidwad y Camera Janet Evans, Haulfryn, Llambled 422856
Ffotograffydd Tim Jones, Llainwen, Llambled 422644

Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes. Mae cyfraniad pob un yn bwysig.

- Dyma gyfeiriad gwefan Clonc: www.clonc.co.uk os am fwy o wybodaeth.
- Beth am ddod yn ffrind i Clonc ar wefan gymdeithasol facebook: www.facebook.com/clonc
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwy'r i feio neb os nad yw rhyweth yn ymddangos yn CLONC.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu e-bostio golygydd@clonc.co.uk
- Gellir gadael newyddion tu ôl y cownter yn siop bapurau Caxton Hall, Llambled.
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Mae croeso i chi ddefnyddio eich camera eich hun. Defnyddiwn luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Danfonwch lun o'ch ffôn symudol i 07837 447122 (bydd eich cwmni ffôn yn codi tâl am hyn).
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur.
- Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50 yn unig y flwyddyn. Cysylltwch â'r ysgrifenyddes.
- Nid yw'r golygydd o reidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Pwy yw fy nghymydog?

Mae'n diolch yn fawr i'r llu o wirfoddolwyr sy'n rhoi o'u hamser i weithio mewn siopau elusen yn yr ardal. Cefais yr hanesyn yma gan un o'r gweithwyr. Un bore daeth person i mewn a dau becyn gwneud 'tapestry'. Rhoddodd rheolwr y siop bris ar y pecynnau ond teimlau'r gwirfoddolwyr fod y pris yn llawer rhy fach, ond yn fargen dda i rywun. Erbyn amser cinio roedd un 'tapestry' wedi mynd ond neb wedi derbyn arian amdano. Wedi ei ddwyn oedd e. Pwy allai iselhau ei hun gymaint i ddwyn o siop elusen!

Cofiaf amdanaf yn siarad â siopwr yn Llanybydder wedi i lardrad ddigwydd dros y pen wythnos. Cyd ddigwyddiad oedd fod ffair yn yr ardal yr un amser. Dywedais wrth berchennog y siop nad oedd eisiau edrych yn bell i ganfod y lladron. Fy nghywiro wnaeth y siopwr gan ddweud "Pryd y ceir sipsw'n o gwmpas, mae'r cymdogion yn gweld cyfle i ddwyn." Dysgais wers bwysig y bore hwnnw!!

Breichiau byrion.

Nid oeddwn wedi clywed y dywediad am berson a breichiau byr o'r blaen. I fi 'breichiau byr' i berson yw creu problemau wrth gael dillad i ffitio. Pan ddefnyddiodd person yr ymadrodd i ddisgrifio ei briod, atebais, "nid wyf i wedi sylwi". "Bachan, rhy fyr i gyrraedd gwaelod y boced mae'r breichiau" dywedodd. Dywediad da am berson sy'n anfodlon ymadel a'i arian.

O'r Diwedd

Y goleuadau traffig ar yr hewl o Lanybydder wedi cael mynd o'r diwedd a gwaith boddhaol wedi ei wneud i sicrhau fod ochr yr hewl yn ddiogel. Dau gwestiwn sy'n aros. Pam yr holl oedi? a Faint gostiodd archebu'r goleuadau? Diolch fod yr hewl yn glir unwaith yn rhagor.

Cyfarfodydd Diolchgarwch

Mae'r Hydref wedi cyrraedd ac fe fydd ein Papur Bro yn llawn o hysbysebion i'n hatgoffa am y dyddiadau a'r Pregethwyr. Mae'n gyfle i glywed pregethwyr gwahanol ac i ddenu gwrandawyr o gapeli eraill. Mae'r nifer o weinidogion yn lleihau'n gyflym iawn, a'r pwysau yn trymhau i lanw Suliau os nad oes Gweinidog ar gael. Mae'n cynulleidfaoedd yn prnhau yn fawr ac nid yw uno capeli yn help. Y syniad oedd fod fod yr aelodau i gyd yn newid o un capel i'r llall, ond gweld cyfle i aros adre wna llawer.

Sut mae'r plant i ddysgu?

Gweld yn y papur ddod fod rhai ysgolion wedi cael cyngor gan y bwrdd Iechyd a Diogelwch nad oedd y plant i gael chwarae gyda phêl-droed gyffredin, rhag ofn iddynt gael annaf, rhaid oedd defnyddio pêl o 'spwng'.

Rhan o dyfu i fyny yw dysgu fod pêl yn gwneud dolur. O ble daw ein chwaraewyr disglair?

Pob hwyl,

Cloncyn

Gohebiaeth Clonc



Urdd Gobaith Cymru, Ffordd Llanbadarn, Aberystwyth, SY23 1EY
Annwyl Gyfaill

TLWS JOHN A CERIDWEN HUGHES

Daeth yr amser unwaith eto i ni ystyried enwau ar gyfer y tlws uchod. Fel y cofiwch, mae'r Urdd wedi derbyn cynnig caredig y teulu i gyflwyno tlws yn flynyddol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd i unigolion sydd wedi gwneud cyfraniad sylweddol i ieuencid Cymru.

Hoffwn dynnu eich sylw at y pwyntiau canlynol:

- Gellir ystyried rhywun sydd wedi cyfrannu at waith ieuencid yn y gorffennol ond sydd wedi rhoi gorau iddi erbyn hyn, yn ogystal, wrth gwrs, â rhai sydd yn dal i weithio gyda phobl ifanc.

- Gofynnir i chi ddefnyddio'r ffurflen enwebu briodol sydd ar gael o Swyddfa'r Urdd.

Dylid ystyried y pwyntiau isod wrth enwebu unigolion:

- Dylai'r gwaith fod trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg neu'n ymwneud ag ieuencid sy'n dysgu'r iaith

- Dylai fod yn waith wyneb yn wyneb â phobl ifanc dros 11 oed a thu allan i gyfundrefn addysg ffurfiol.

- Gall fod yn ymwneud ag unrhyw agwedd o waith ieuencid (diwyllianol, corfforol, dyngarol, cymdeithasol, gyda phobl anabl, gyda dysgwyr, rhoi cyfle i ieuencid gyfrannu, gwaith awyr agored, cyfnewid ac yn y blaen).

- Gall fod yn waith gydag unrhyw fudiad ieuencid.

Os am ffurflen enwebu cysylltwch gyda Enfys Davies, Swyddfa'r Urdd, Aberystwyth, ar 01970 613103, neu trwy e-bost - enfys@urdd.org

Yn gywir

Efa Gruffudd Jones Prif Weithredwr

Nid yw'r golygydd o reidrwydd yn cytuno â'r farn a adlewyrchir yn mhob un o erthyglau CLONC.

Cydnabyddir cefnogaeth



HYSBYSEBU YN CLONC

"Mae mwy a mwy yn gweld gwerth mewn hysbysebu yn y Papur Bro."
Amcangyfrifir bod tua 3,000 o bobl yn darllen CLONC.

£10.00 am floc bach.

£40.00 am chwarter tudalen.

£60.00 am flwyddyn o flociau bach.

Cysylltwch ag Ysgrifenyddes CLONC am ragor o wybodaeth:
01570 480015 neu ysgrifennydd@clonc.co.uk



HYDREF

- 6 Cwrdd Diolchgarwch Seion, Cwrtnewydd am 7:00y.h. gyda'r Parch Huw George, Blaenconnin.
- 7 Noson Moes a Phryn dan nawdd Urdd y Benywod Capel y Bryn yn Festri Seion, Cwrtnewydd am 7:30y.h. Croeso cynnes i bawb.
- 9 Taith tractorau yn dechrau o Norwood Llanllwni am 10.30 yb. Elw tuag at Ambiwylans Awyr Cymru. Manylion oddiwrth Melvyn Rees 01559 395420.
- 11 Cwrdd Diolchgarwch Capel yr Erw, Cellan am 7.00y.h. Gwasanaethir gan y Parch Andrew Lenny, Aberystwyth.
- 13 -15 Sioe Dathlu C.Ff.I. Ceredigion yn 70 oed yn Theatr Felinfach.
- 12 Cwrdd Diolchgarwch Capel Nonni, Llanllwni am 7.00y.h. Pregethir gan Andrew Lenny, Aberystwyth. Croeso cynnes i bawb.
- 12 Cwrdd Diolchgarwch Bethel Parcyrrhos am 7 o'r gloch gyda'r Parch Felix Aubel.
- 13 Cwrdd Diolchgarwch Capel Caersalem, Parcyrrhos am 7.00yh Pregethir gan y Parch Eirian Lewis, Mynachlogddu.
- 13 Cwrdd Diolchgarwch Ysgol Llanwnnen yng Nghapel Cribyn am 7.00y.h. Croeso cynnes i bawb.
- 18 Bingo gyda Harold yng Nghlwb Rygbi Llanybydder am 8.00y.h. Elw tuag at BHF Nyrs Calon Ceredigion.
- 19 Cwrdd Diolchgarwch Ysgol Llanwenog yn Eglwys Sant Gwenog am 2.00y.p.
- 20 Cwrdd Diolchgarwch Capel-y-Cwm, Cwmsychpant am 7:30y.h.
- 26 Sioe Fasiwn Shwl di mwl yn Nafarn Talardd, Llanllwni am 7.30 y.h. gan Gylch Meithrin Llanllwni.
- 29 Eisteddfod Gadeiriol Pumsaint. Agored i ddechrau am 2.30y.p. Manylion pellach Mair Williams 01558 650292.
- 29 Côr Llanpumsaint a'r cylch yn cyflwyno Y Meseia gan Handel, yn Capel Tabernacl, Caerfyrddin am 7.30. Tocynnau oddiwrth aelodau'r cor, neu ffoniwch 01559 384279.

TACHWEDD

- 1 Pwyllgor Eisteddfod Rhys Thomas James, Llanbedr Pont Steffan yn Ysgol Ffynnonbedr am 7.00y.h. Croeso cynnes i bawb.
- 1 Swper Cynhaef blynyddol Clwb Ffermwyr Ifanc Llanllwni am 7.30yh yn Neuadd yr Eglwys, Maesycrugiau. Oedoliad £5 y tocyn. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Meryl Davies ar 01559 384217.
- 4 Noson Tân Gwyllt yn Rhydau, Drefach am 7.00y.h.
- 4 Cinio a Dawns Cymdeithas Amaethyddol Llanbedr Pont Steffan yn y Coleg, Llambod am 7.30 yh. Tocynnau - £20.00. Cysylltwch a Gareth Russell - 01570 423 396. Croeso cynnes i bawb.
- 5 Noson o Tân Gwyllt a Thwmpath Gyda Erwyd Howells yn galw a Breian wrth yr organ yn Neuadd Gymuned Llanddewi Brefi.
- 5 Bore Goffi 10.30yb tan 1.00yp yn Eglwys San Pedr, Llanybydder.
- 7 Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cymdeithas Amaethyddol Llanbedr Pont Steffan am 7.30y.h, yng Ngwesty'r Llew Du, Llanbedr Pont Steffan. Croeso i aelodau hen a newydd.
- 10 + 12 Eisteddfod C.Ff.I. Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid.
- 12 Gŵyl Cerdd Dant Cwm Gwendraeth.
- 12 Ffair Nadolig Cylch Meithrin Llanllwni. Mwy o fanylion yn y rhifyn nesaf.
- 18 Cyngerdd Dathlu 70 mlynedd Clwb Llanddewi Brefi yn Neuadd Gymuned Llanddewi Brefi.
- 19 Eisteddfod C.Ff.I. Cymru ym Mhafiliwn Rhyl.
- 23 Lansio Llyfr y Dathlu C.Ff.I. Ceredigion yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru Aberystwyth.

RHAGFYR

- 3 Cino Dathlu 70 mlynedd Clwb Llanddewi Brefi yn Neuadd Lloyd Thomas Coleg Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan. Croeso Cynnes i Aelodau, Cyn-aelodau a ffrindiau y Clwb i ymuno. Manylion pellach wrth Meinir Green ar 01570 423 135.
- 3 – 10 Panto Nadolig Theatr Felinfach.
- 4 Cymanfa Ganu Dathlu C.Ff.I. Ceredigion yn 70 oed yng Nghapel Tabernacl, Aberaeron.
- 7 Noson o Arddangosiad Coginio yn Eglwys Llanwenog i ddechrau am 7.30yh. Elw tuag at yr ysgol.
- 14 Cyngerdd y Tri Tenor yn Theatr Felinfach am 7:30y.h.

Llanfair Clydogau

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau cynnes iawn i Ceris Quan, Sŵn yr Afon, Ceri Cranford, Bronhaul, Matthew Miller, Cysgod y Coed, a Vaughan Evans, Y Ddol, ar wneud mor dda yn eu arholiadau Tagau ac i Charlotte Evans, Y Ddol yn ei arholiadau lefel A. Pob lwc i bob un ohonynt yn eu gyrfa yn y dyfodol.

Arddangosfa Hanes y Pentref

Cynhaliwyd ail arddangosfa o hanes pentref Llanfair yn y Neuadd dros Wyl y Banc. Daeth llawer o bobol ynghyd i'w weld gan werthfawrogi llawer o hanes a lluniau ychwanegol oedd wedi eu casglu gan Alan a Sally Leech yn ystod eu ymchwilio pan yn ysgrifennu eu llyfr diweddaraf Roedd 'artifacts' eraill hanesyddol hefyd wedi dod i law oddi-wrth rhai o aelodau y grŵp hanes, i wneud yr holl achlysur yn un diddorol dros ben. Laura Wood oedd yn gyfrifol am yr arddangosfa, y casglu, a'r rhoi fyny gyda help aelodau y grŵp hanes Tra yn pori dros y lluniau a darllen yr erthyglau, roedd cyfle i gymdeithasu dros paned o de a lluniaeth ysgafn. Diolch i bawb a fu yn gyfrifol am hyn, ac i Laura ac aelodau y grŵp Hanes am lwyddiant arbennig yr arddangosfa

Y Parti

Cafwyd noswaith gofiadwy o hwyl a chymdeithasu pan ymunodd llawer o ffrindiau a pherthnasau Lesley Stevens i ddathlu ei phenblwydd arbennig yn y neuadd. Thema gwisg y noson oedd 'ffroc a sgidie' i bawb. a mae'n rhaid dweud ein bod wedi cael pared ffasiwnol dros ben gan y dynion a sbri neilltuoel, ac fel arfer lluniaeth o fri wedi ei baratoi gan bawb. Noson i'w chofio! Gyda llaw--ffroc satin felen i'w gael yn rhad ac am ddim--yn siwtio dyn bach tew, gyda tipyn o fola. Cysylltwch a gohebwyd Llanfair !!

Trip y Pentref

Daeth fel siom i rai o fobol y pentref fod y trip blynyddol oedd yn mynd i'r Wyl Fwyd yn y Fenni wedi ei ganslo oherwydd diffyg diddordeb. Gobeithiwn y bydd yn fwy llwyddiannus blwyddyn nesaf.

Taith Feicio

Ar Awst 14eg aeth grŵp bach o'r pentre ar daith beicio o Lanilar i Drawscoed a nôl. Trefnwyd y daith gan Dai Jones Llanfair Fach a diolch hefyd iddo am gludo y beiciau. Cafwyd prynhawn hwylus dros ben.

Dymuniadau Gorau

Erbyn i chwi ddarllen y newyddion hyn disgwylir i Aerwen Griffiths, Pengarn fod wedi bod yn yr ysbyty yn cael llawdriniaeth i ail osod asgwrn y glun. Gwellhad buan iawn iddi.



O'r Cynulliad

gan Elin Jones

Unwaith eto, roedd mis Medi yn llawn bwrlwm gyda nifer o gyfarfodydd ac ymweliadau ym mhob rhan o'r sir. Ar ddechrau'r mis fe ymunodd y Gweinidog Iechyd, Leslie Griffiths AC, â mi ar ymweliad ag elusen Ffagl Gobaith, sy'n darparu gwasanaeth 'hosbis yn y cartref' ar gyfer cleifion sydd â chancr. Roedd hi'n braf weld y Gweinidog yn ymddiddori yng ngwaith yr elusen ac ymroddiad y staff a'r sylfaenydd, Elizabeth Murphy. Rwy'n gefnogol iawn o'r hyn mae Ffagl Gobaith yn ei gyflawni'n lleol ac rwy'n gwybod bod nifer o drigolion Ceredigion wedi derbyn cymorth ganddynt.

Wedi i'r cyfarfodydd ail ddechrau yn y Senedd, cyhoeddwyd gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar wasanaethau mamolaeth oedd yn awgrymu canoli gofal arbennigol mewn ysbytai penodol. Yn achos Bronglais, byddai hyn yn golygu y byddai'n rhaid i famau sydd angen gofal arbennigol deithio i Ysbyty Glangwili i roi genedigaeth. Rwy'n poeni'n fawr y byddai cynlluniau o'r fath yn peryglu iechyd y fam a'r baban ac fe ymgyrchais yn erbyn cynlluniau tebyg i israddio gwasanaethau ym Mronglais yn 2006. Byddaf yn ymgyrchu unwaith eto os caiff y cynlluniau yma eu hatgyfodi.

Yn olaf, roeddwn yn hynod o falch i glywed y Prif Weinidog yn cadarnhau bod ei lywodraeth am gadw at addewid rhaglen Cymru'n Un a chyflwyno gwasanaeth pob awr ar Linell y Cambria erbyn Ebrill 2012. Mae nifer o welliannau i isadeiledd y llinell eisoes wedi eu cwblhau, felly edrychaf ymlaen at weld gwasanaeth trên aml a chyson – rhywbeth a fyddai o fudd enfawr i drigolion ar draws canolbarth Cymru.

Cwmann

Ysgol Carreg Hirfaen



Bu tim trawsgwlad yr ysgol yn llwyddiannus iawn ym mhencanpwriaeth Sir Gaerfyrddin yn ddiweddar. Gyda dros gant o blant yn cystadlu ym mhob ras, mae'n rhaid inni longyfarch Beca Mai Roberts am ddod i'r brig gan ennill ei ras i ferched blwyddyn 4, tra bo'r canlynol wedi gorffen yn bedwerydd, Beca Ann Jones (Bl 4), Daniel Ifan Jones (Bl 4) a Beci Harrison (Bl 6).

Hefyd yn llwyddo i orffen y ras mewn amserau gwych oedd Naomi Howell, Naiomi Davies, Lowri Davies, Megan Davies, Danielle Jones, Jenna Simmonds ac Elin Williams.

Mae Fiona Jones o Gwmann yn ymarfer yn galed at y sialens o redeg hanner marathon Caerdydd ar y 16eg o Hydref i godi arian i Apêl Elain. Os ydych am nodi cysylltwch a hi ar 421332. Diolch yn fawr.



Llwyddiant Sioeau

Llongyfarchiadau i Gethin Morgan a'i Ddafad Balwen sydd wedi cael ei dangos yn llwyddiannus iawn yn y sioeau yn 2011. Enillodd 1af yn ei dosbarth yn y Sioe Frenhinol ac arddangos yn Fenyw orau ac is-bencampwraig ei brid. 1af ac arddangos yn fenyw orau Sioe Aberystwyth, 1af Sioe Llamed, 1af a Pencampwraig Cwrtycadno, 1af, pencampwraig a dafad lliw orau Cilycwm, 1af Trapp.

Hefyd, cafodd llwyddiant efo'i oen fenyw a werthwyd yn yr arwerthiant yn Llanellwedd am £550, sef pris gorau allan o'r holl ddefaid menwod oedd yno. Enillodd hi ei dosbarth yn y Sioe Frenhinol, 1af Aberystwyth, 1af Cwrtycadno, 1af Llangethio a 1af a phencampwraig Tregaron.

Pen-blwydd

Llongyfarchiadau i Christina Davies ar ddathlu ei phenblwydd yn ddeunaw oed. Gobeithio i ti fwynhau y dathlu a phob lwc i'r dyfodol ac i bawb arall sydd wedi dathlu penblwyddi arbennig.

Diolch

Dymuna Sian Jones, Awel y Grug, Cwmann, ddiolch i bawb am y llu o gardiau, galwadau ffon, rhoddion a dymuniadau da a dderbyniodd ar ol ei llaw-driniaeth yn ysbyty Glangwili ac ar ôl dychwelyd adref. Diolch o galon i bawb am eu caredigrwydd.

Clwb 250 Mis Medi

1. 226, Eirwen Davies, Ffawydd, Cwmann, 2. 38, Carol Doughty, Caris, Cwmann, 3. 89, Gwen Jones, Gellidewi Uchaf, Cwmann, 4. 145, David Williams, c/o Ty Hywel, Cwmann, 5. 12, Vaughan Abel, Neuadd Ddeg, Cwmann, 6. 211, Dana Jones, 45 Heol Hathren, Cwmann, 7. 83, Mark Jones, c/o Gwyn Lewis, 8. 125, Terris Williams, Maes y Bedw, Cwmann, 9. 25, T. Price, Gelliwrol, Cwmann, 10. 107, Ryan a Gabrielle Davies, Delfan, Cwmann.

Clwb 170 Mis Medi

1. Edwin Harries, 8 Nantyglyn, Cwmann, 47, 2. Muriel Davies, 2 Nantycelyn, Cwmann, 93, 3. Dafydd Lloyd, Penybont, Pumsaint, 96, 4. Audrey Bonner, Stryd y Bont., Llamed, 6, 5. Mrs. Pat Davies, Dolcoed, Cwmann, 127, 6. Mrs. P. E. Jones, Cilgell Isaf, Cwmman, 7. Mrs. Lena Williams, 39 Heol Hathren, Cwmann, 79, 8. Danny Davies, Brynteify, Cwmann, 9. Miss. Rhian Jones, Hafod Cottage, Cwmann, 29, 10. Graham Evans, Fferm Felinfach, Cwmann, 3.

Diolch

Dymuna Ceris Lodwick, Penrhyn ddiolch i bawb am y llu cardiau a'r dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur pen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

Ffair Ram



Cynhaliwyd y Ffair ar y 10fed Medi 2011. Er gwaethaf y tywydd garw, cafwyd diwrnod llwyddiannus iawn o dan lywyddiaeth Mr Elfyn Williams, Idole (Wynarth gynt). Cafwyd cystadlu brwd ym mhob cystadleuaeth ac arddangosfa arbennig o dda o hen beiriannau. Codwyd swm sylweddol tuag at Apêl Elain.

Dyma enillwyr y Gwobrau: Adran Fferm - Iestyn Russell, Adran CFfl - Elen Powell, Llysiau a Ffrwythau - Jenkin Mason, Blodau - Gwyn Williams, Coginio - Helen Roberts, Cyffeithiau / Gwinoedd - Joyce Williams, Ysgol Feithrin - Thomas Gregg, Dosbarth Derbyn - Thomas Legg, Blwyddyn 1 a 2 - Osian Roberts, Blwyddyn 3 a 4 - Gwennan Rowcliffe, Blwyddyn 5 a 6 - Mari Lewis, Ysgol Uwchradd - Manon Williams, Arlunwaith - Dilys Godfrey, Ffotos - Terry Davies, Crefftiau Cefn Gwlad - Gwyn Williams, Gwaith Llaw - Dilys Godfrey, Adran y Defaid - Eiddig Jones, Cwpan Sialens Felindre Uchaf - Jenkin Mason, Cwpan Sialens Felindre Isaf - Teulu Ffosyffin, Cwpan Sialens Wyn a Mary - Carwyn Lewis, Cwpan Sialens Eric Harries - Eiddig Jones, Cwpan Sialens Teulu Hendai - Carwyn Lewis, Cwpan Sialens Dalgety - Carwyn Lewis.

Hoffai'r swyddogion ddiolch i bawb a fu'n helpu ac am bob cefnogaeth.

Cellan

Penblwydd Arbennig

Dathlodd Mrs Mary Jones, Caerau ei phenblwydd yn 70 oed yn ddiweddar. Gobeithio eich bod wedi mwynhau, llongyfarchiadau i chi a phob dymuniad da.

Dathlu

Yr oedd Capel yr Erw yn dathlu dau canmlwyddiant ers ei sefydlu yn 1811 ym mis Medi. Cynhealiwyd oedfa i ddathlu'r achlysur efo Mr Lyndon Lloyd, o Beulah, yng ngofal y gwasanaeth. Daeth aelodau a ffrindiau i'r oedfa i ddathlu'r achlysur, ac mi gafom hanes y capel yn ogystal ag ail-fyw rhai o'r hen draddodiadau.

Yn dilyn hyn, cynhaliwyd cinio yng Ngholeg Prifysgol Y Drindod Dewi Sant, Llamed, efo y Prifardd T. James Jones, Archdderwydd Cymru yn siaradwr gwadd. Bu y dathlu yn llwyddiant efo chefnogaeth cryf. Llongyfarchiadau a daliwch ati.



Torrwyd y gacen gan yr aelod hynaf Gwen Jones, gyda'r diaconiaid a'r swyddogion - Glyndwr Jones, Gerwyn Jones, Noel Anthony Davies, Gwen Jones, Y gŵr gwadd T James Jones, Mary Jones, Ken Jones ac Eiros Jones.

Capel yr Erw

Cynhelir cwrdd diolchgarwch Capel yr Erw nos Fawrth, Hydref y 11eg am 7 o'r gloch. Gwasanaethir gan y Parch Andrew Lenny o Aberystwyth.

Drefach a Llanwenog

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Gwennan Davies, o G.Ff.I Llanwenog ar gael ei hethol yn aelod o fwrdd Rural Youth Europe i gynrychioli y Deyrnas Unedig ac Iwerddon am y ddwy flynedd nesaf. Bydd hi'n gyfrifol am gyd-lynnu a hybu'r teithiau sy'n cael eu cynnig gan y mudiad sef Seminar y Gwanwyn a'r Hydref a'r Rali Ewropeaidd ynghyd â threfnu'r digwyddiadau a theithio o amgylch Ewrop i'r gwahanol gyfarfodydd. Dyma gyfle unigryw i drafod testunau cyfoes sy'n effeithio ar gefn gwlad a phobl ifanc Ewrop ynghyd â dysgu am ddiwylliannau a thraddodiadau gwledydd eraill.

Bydd Gwennan hefyd yn teithio i dalaith Illinois yn yr Amerig am dair wythnos yn ystod mis Hydref fel llysgenad ar ran CFFI Cymru ac yn aros gyda teuluoedd yno gan dysgu am eu ffordd o fyw, y mudiad a'u diwylliant.

Llongyfarchiadau iddi hefyd ar gael eu hethol yn Is-Gadeirydd Pwyllgor Gweithgareddau'r Sir yn ystod mis Medi a fydd yn golygu ei bydd yn cynrychioli'r Sir ar lefel Cymru yng nghyfarfodydd y Cyngor ac is-bwyllgor Gweithgareddau a Rhyngwladol.

Pob dymuniad da am y ddwy flynedd brysur sydd o dy flaen.

Gwellhad Buan

Bu Nia Evans, Cledlyn View a Robert Jones, Arnant yn anhwylus yn ystod y mis. Gobeithio eich bod yn teimlo'n well erbyn hyn.

Diolch

Dymuna Huw Davies, Bryndolau, Brynteg ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd pan yn dathlu ei benblwydd yn ddiweddar.

Priodas

Llongyfarchiadau i Eifion, Brookland gynt, ac Hayley o'r Alban, a briodwyd ar Ynys 'Cyprus' ar y 26ain o Awst. Maent wedi ymgartrefu yn 'Wick' yn yr Alban. Dymuniadau gorau i'r ddau.

Y Gymdeithas Hŷn

Daeth diwedd ar dripiâu'r Haf ym mis Medi, ac ynghanol dyddiau o dywydd garw bu'r aelodau'n ffodus o gael diwrnod braf i fynd i Abertawe a'r Mymbls ar y 14eg o'r mis. Aeth nifer i siopa am rhyw ddwyawr, tra bu eraill yn ymweld ag Amgueddfa'r Glannau, ac yn mwynhau'r arddangosfeydd diddorol yno.

Ar hyd Bae Abertawe wedyn yn y bws, ac i'r Mymbls ac Ystumllwyniarth (Oystermouth). Mwynhau'r heulwen ac awel y môr am y prynhawn, er fod y llanw allan a'r wâc yn rhy bell i neb fynd i olchi'i draed!

Swper yn y Buck Inn ym

Mhontlliw cyn cychwyn am adre a phawb wedi mwynhau yn fawr.

Bydd cyfarfod cyntaf tymor y Gaeaf yn festri Seion, Cwrtnewydd, Dydd Mercher Hydref 12fed am 1.30 o'r gloch. Gobeithiwn weld ffrindiau na sydd wedi bod ar dripiâu'r Haf, a chroesawn aelodau newydd i ymuno â ni.

Bethel a Brynteg.

Erbyn i'r rhifyn hwn ddod o'r wasg bydd Cwrdd Diolchgarwch Bethel Drefach wedi ei gynnal Nos Fawrth diwethaf, pan fu'r Parch Cen Llwyd yn gwasanaethu.

Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Brynteg Nos Fawrth Hydref 11eg am 7 o'r gloch, pan y disgwylir Miss Delyth Morgans o Aberystwyth i'n hannerch. Croeso cynnes i bawb.

Dymunwn wellhad buan i dair o'n haelodau sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar, sef Mrs Ray Davies, Crug yn Ysbyty Glangwili; Mrs Annie Bowen, Arosfa a Mrs Betty Jones, Delfan, y ddwy yn Ysbyty Llanelli. Brysiwch i wella.

Croeso i'r Babanod.

Llongyfarchiadau calonnog i Menna a Meurig, Tŷ Clyd, Drefach ar enedigaeth efeilliaid, bachgen a merch, Dion ac Anna Dydd Gwener Medi'r 9fed yn Ysbyty Glan Clwyd.

Felly hefyd i Andrew a Rhian, Abertegan ar enedigaeth merch fach bore Sul y 18fed o Fedi, croeso mawr i Angharad, a dymuniadau gorau i'r ddau deulu

Eglwys Santes Gwenog.

Gyda'r Hydref wedi dod, daeth â Chyrrddau Diolchgarwch yn ei sgîl. Cynhaliwyd ein cyfarfod Nos Lun y 3ydd o Hydref gyda'r Parch Mathew Hill, Caplan Coleg y Drindod Dewi Sant yn ein hannerch. Dilynwyd y gwasanaeth gyda Swper y Cynhaeaf yn yr Eglwys Fach. Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch plant ysgol Llanwenog Dydd Mercher 19eg o Hydref am 2.00 y.p.

Cafwyd noson hwylus iawn ar Fedi'r 9fed pan y daeth chwech tîm ynghyd i grafu pen mewn cystadleuaeth 'cwis'. Yr enillwyr haeddiannol oedd tîm y Ficer, y Parch Suzie Bale. Dilynwyd y cwis gan de a raffl. Diolchwyd i Mr Keith Goodall am baratoi'r cwestiynau, i'w wraig Lynne am y lluniaeth, ac i bawb am eu cefnogaeth.

Ar yr ail o Dachwedd cynhelir noson 'Gyrfa Chwilod' (Beetle Drive) gyda lluniaeth ysgafn i ddilyn. Y pris fydd £4 i oedolion neu £10 am docyn teulu.

Dymunwn longyfarch Gwennan Davies, Llyseri ar benodiad arbennig iawn. Mewn cyfarfod Cynulliad Cyffredinol y Rali Ewropeaidd yn Slovenia, apwyntiwyd Gwennan i gynrychioli Clybiau Ffermwyr Ifanc Ynysoedd



Plant Adran Iau Ysgol Llanwenog yn eu gwrsi gitâr ar ôl ysgol.

Prydain ag Iwerddon. Bydd yn eistedd ar bwyllgor Seminarau C.Ff.I ac hefyd y Rali Ewropeaidd. Mae Gwennan wedi cynrychioli C.Ff.I. Cymru o'r blaen, yn Rali Ewrop yn yr Almaen yn 2007 ac yn Sweden yn 2011. Dymuniaau gorau iddi yn ei swydd newydd a phwysig.

Cofiw'n am bawb o'r ardal sy'n anhwylus. Cofiw'n am Mrs Ray Davies, Crug, sydd ar hyn o bryd yng nhartref Henoed Maesllewelyn, Castell Newydd Emlyn. Braf yw gweld fod Jac, Vale of Cledlyn nôl yn yr ysgol. Ein cydymdeimlad â phawb sydd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar.

Clwb Cant yr Eglwys: Awst – 1. Wendy Mellor, Rhiwson Isaf; 2. David Rees, Llys Dolau; 3. Margaret Rees, Llys Dolau. Gorffennaf – 1. Nancy a Wyn Davies, Tyngrug; 2. Miriam Butcher, Caerdydd a Llanybydder; 3. Terry Pocock, Kingsmead Llamed.

Cylch Meithrin Drefach

Codwyd swm dda o arian i goffrau'r Cylch Meithrin drwy noson o 'Wthio Gwely' nodedig diwedd y tymor diwethaf. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Diolch hefyd i Anne Evenden am ei gwaith gyda'r Cylch Meithrin dros llawer o flynyddoedd; mae Anne wedi ymddiswyddo erbyn hyn, a chroesawn Pat Betts ac Ellen Towner i blith y staff.

Pob lwc i Ffion Morgan sydd wedi dechrau yn ysgol gynradd Llanwnnen, a chroeso i'r Cylch i Jac Rees, Elis Jenkins a Mari Evans. Gobeithio y byddwch i gyd yn hapus yn ein plith.

C.Ff.I Llanwenog

Ar ôl cael bron dim haul dros yr haf, roedd yr aelodau hen a newydd mwy na brwdfrydig i ail-ddechrau clwb nôl ym mis Medi. Ond, er fod yna ddim clwb dros yr haf, roedd yr aelodau'n ddiwyd iawn yn edrych ar ôl yr 18 Albanwyr a ddaeth lawr yn ystod y gwyliau, ymunodd yr Albanwyr ar aelodau yn Sioe

Gorsgoch, diwrnod o hwyl yn Llain a noson o 'emau ar y traeth yn Cei. Diolch yn fawr i bawb am edrych ar eu hôl, rwyn siwr cafodd pob un ohonynt amser anhygoel yn ein cwmni. A pwy gwell ffordd sydd i ddechrau'r flwyddyn newydd nac drwy gael Noson Arweinyddion. Braf oedd gweld cyn gymaint o aelodau newydd yn ein plith, yn joio ac yn cael llawer o hwyl a sbri. Rwyn siwr fod pawb wedi cael noson bythgofiadwy felly diolch yn fawr i'r arweinyddion am roi o'u hamser i'n diddanu. Ar nos Lun y 12fed o Fedi cafwyd noson o gemau tafarn yn Nhafarn Cefn Hafod, roedd yna amrywiaeth o emau'n cael eu chwarae trwy gydol y nos, roedd y gemau'n amrywio o dennis fwrdd i dominos, efo rhai mwy cystadleol na'i gilydd ond roedd gwen ar wyneb pawb trwy gydol y nos. Go-Kartio oedd i'w ddilyn efo'r clwb yn teithio i Lwyn Celyn ar yr 19fed. Noson ffantastig, efo pob oedran yn mwynhau. Ond rwy ddim cweit mor siwr pa mor ddiogel mae rhai o'r aelodau ar yr hewl cofiwch!

Ar y nos Wener aeth sawl unigolyn o'r clwb i gystadlu yn Chwareon dan do y Sir, yn Llanddewi Brefi. Efo sawl aelod newydd y clwb yn cymeryd rhan, gwnaeth y clwb yn dda iawn yn pob adran efo Enfys Hatcher yn cael ail yn darts, Heilin ail yn drafts, a Gwenan ail yn tenis fwrdd. DA IAWN PAWB!

Llongyfarchiadau hefyd i Miss Gwennan Davies, sydd wedi cael ei hethol i gynrychioli Cyflunniannau Y Deyrnas Unedig ac Iwerddon ar Fwrdd Ieuenctid gwledig Ewrop, am gael ei hethol i fod yn gadeirydd pwyllgor gweithgareddau yma'n Nghymru, ac am cael ei dewis i deithio i'r UDA, DA IAWN TI, A PHOB LWC!

Phob lwc hefyd i Miss Manon Richards un o arweinyddion y clwb sydd wedi cael ei hethol yn Gadeirydd ar C.Ff.I Ceredigion, i Miss Sioned Davies sydd wedi cael ei hethol yn gadeirydd ar y fforwm ieuenctid, ac i Miss Gwawr Hatcher

Drefach a Llanwenog



Disgyblion Ysgol Llanwenog a fu yn llwydiannus mewn sioeau dros yr haf.

am gael ei hethol fel Is-Gadeirydd. DA IAWN A PHOB LWC AM Y DYFODOL!!

Dau berson arall sydd wedi bod yn weithgar dros ben yn ddiweddar ydy Miss Enfyf Hatcher Cadeiryddes y Clwb a Mr Arwel Jenkins a cafodd ei dewis i fynd i Slovenia i'r rali Ewropeaidd. A chofiwch os oes unrhyw ddiddordeb gennych chi ymuno ar clwb mae yna ddigon o wybodaeth ar ein gwefan sef: www.cffillanwenog.org.uk.

Gwellhad Buan

Gwellhad buan i William James, Caellan, sy'n derbyn triniaeth wedi damwain yn ddiweddar. Brysiwch wella.

Ysgol Llanwenog

Croeso 'nôl i bawb ar ôl gwyliau'r haf. Ar ddechrau'r tymor yma croesawn Florean Van Ostade a Harri Rivers i'r Ysgol ac erbyn hyn maent wedi ymgartrefi'n dda iawn yn ein plith.

Hefyd estynnwn groeso cynnes i Mrs Gwenyth Owens, sef, athrawes Peripatetig Cymraeg a fydd yn dysgu yn yr Adran Iau y tymor yma.

Mae Clwb yr Urdd eisioes wedi dechrau yn yr ysgol gyda noswaeth o gêmâu amrywiol. Diolch yn fawr i Ms Nia Evans a Mrs Sian Davies am eu cymorth yn ystod y noson. Fe wnaeth pawb fwynhau, edrychwn ymlaen i'r un nesaf sydd ar nos Lun y 3ydd o Hydref.

Yn ystod gwyliau'r haf bu'r plant yn cystadlu mewn dwy sioe leol a bu nifer fawr ohonynt yn ddigon ffodus i ennill gwobrau. Yn Sioe Cwmsychpant daeth Chloe Cox i'r brig a Chloe Marie Jones yn ail yn y gystadleuaeth blwyddyn 3 a 4 o dan y testun 'Y Tywydd'. Cafodd Roseana Roach gyntaf yn y Llawysgrifen i flynyddoedd 3 a 4 a Sam Lewis a Katie Brown 3ydd yn y gystadleuaeth arlunio. Yn Sioe Gorsgoch cawsom gyntaf gyda Emily Danson, ail gyda Delyth Ann Jones a thrydydd Lowri Ann Davies yng nghystadleuaeth llawysgrifen i

blant blynyddoedd 5 a 6, ac yna yn y gystadleuaeth i flynyddoedd 3 a 4 daeth Ben Lewis yn ail. Cipiodd Luke White un o blant y Babanod yr ail wobwr am arlunio, a daeth Ffion Evans yn ail a Delyth Ann Jones yn drydydd yn y gystadleuaeth arlunio i flynyddoedd 5 a 6. Llongyfarchiadau iddynt oll!

Eleni mae plant yr Adran Iau yn ffodus i dderbyn y cyfle i fynychu clwb gitar ar ôl ysgol. Maent eisioes wedi cwrdd ddwy waith ac mae'r criw wrthi'n ddiwyd yn dysgu sut i chwarae. Diolch y fawr i Mrs Catrin Evans am gynnal y clwb.

Bydd Cwrdd Diolchgarwch yr ysgol yn cael ei gynnal yn Eglwys Sant Gwenog ar brynhawn dydd Mercher y pedwerydd ar bymthegfed o Hydref am ddau o'r gloch. Estynnwn groeso cynnes i bawb yn y gymuned i ddod i ymuno â ni.

Wedi llwyddiant ein casgliad cyntaf o 'Bags 2 School' nôl yng nhymor yr haf, byddwn yn cynnal casgliad arall 13eg o Hydref. Croesawn unhywun i ddod a sachau o hen ddillad neu esgidiau mewn i'r ysgol erbyn y dyddiad uchod.

Mae cymdeithas athrawon a rhieni yr ysgol yn trefnu ras hwyl i blant ac oedolion ar fore Sul y degfed ar hugain o Hydref. Ras y plant cynradd fydd gyntaf am hanner awr wedi deg ac yna i ddilyn fydd disgyblion yr uwchradd ac yma ras yr oedolion. Bydd modd i chi dderbyn ffurflen gystadlu o'r ysgol neu ar y dydd. Bydd lluniaeth ysgafn ar gael drwy'r bore.

Enillwyr Clwb Cant: Mehefin - 1af Hafwen Davies; 2ail Mandy Davies; 3ydd John Davies (Bwlchmawr). Gorffennaf - 1af Jac Evans; 2ail Karen Griffiths; 3ydd Sioned Mills. Awst - 1af Osian Prys Davies; 2ail - Mr & Mrs Davies, Llwynderw; 3ydd Mr Ken Davies. Medi - 1af Ms Nia Evans; 2ail Mr Pat O'Keeffe; 3ydd - Molly Greenfield; Hydref - 1af Rhodri Gregson; 2ail Hafwen Davies; 3ydd Sian Jones Awelon.

Pencarreg

Balŵn Awyr Poeth

Ar noson hyfryd ddiweddd Haf adeg swper dyma gyffro mawr ym mhentref Pencarreg. Gadawyd y swpera yn y fan a cyrchodd nifer helaeth o'r trigolion wrth y llyn i weld balŵn coch anferth yn disgyn yr ochr draw. Dyma beth oedd digwyddiad cyffrous a phawb wrth eu boddau yn gweld y perfformans.



O'r fasedg daeth Gethin a Rhian Jones, Mynachlog a John ac Audrey Davies, Blaenglowon, Talgarreg gan roi eu traed ar dir solet, wedi hedfan draw o Dalgarreg ar ôl ennill y daith mewn cystadleuaeth. Da iawn chi am ddod a'r fath hwyl i'r pentref, gwnaeth pawb fwynhau eich ymweliad yn fawr iawn.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Dafydd a Rachael Thomas, Dolwar Fach ar enedigaeth merch fach, Megan Grace chwaer fach newydd i Annie. Ein dymuniadau gorau i chwi fel teulu.

Henbant

Croeso i Peter a Vickey Dilcock i'w cartref newydd yn Henbant. Maent wedi symud o Swydd Efrog [Yorkshire] i gael bod yn agos at eu merch a'i theulu yn Nolwar Fach. Blynyddoedd o iechyd a hausrwydd i chwi eich dau ym mhentref Pencarreg.

Clwb Clonc

Hydref 2011

£25 rhif 216 :
Mrs Caryl Herrick,
Pontfaen, Llambled.
£20 rhif 30 :
Gwennan Davies,
Blaenderi, Penbryn, Llambled.
£15 rhif 233:
Mrs Eluned James,
Ael-y-bryn, Heol Maestir, Llambled.
£10 rhif 329 :
Mrs Ray Jones,
Hafod-yr-ŵyn, Gorsgoch.
£10 rhif 346 :
Tony Lewis,
Brynawel, Cwmann.
£10 rhif 90 :
Geraint Davies,
Hengoed, Heol Llyswen, Aberaeron.

Gweithdy Llechi Cymreig, Enwau Tai, Dillad,
Llyfrau, Cds, Dvds, Anrhegion ac Oriel

Sianti

Uned 2 Monumental Works,

Stryd y Fro, Aberaeron
gyferbyn a Banc y Natwest

01545 571510

www.sianti.org



Mae Toriad Taclus
Wedi newid siop
Mae ar Heol Caerfyrddin
Ger y Sgwâr Top

Ffoniwch Catrin ar 01570 481425

Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

19 Stryd y Coleg, Llambled
Ffon: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob
gwasanaeth cyfreithiol
Apwyntiadau hwyr neu
yn eich cartref

Ymgynghorwyr Yswiriant Eryl Jones Cyf

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris
i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan,
beic modur

Teithio

Cyfrifoldeb



Yswiriant tŷ/
cynnwys

Fferm a busnes

Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant,
cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA
Ffôn: 01570 422401

Ffacs: 01570 422562

Authorised & Regulated by The Financial Services Authority

FISHERS

ARMS



Bwyd cartref ardderchog nos Iau, Gwener a Sadwrn,
Prydiau mewn basged ar gael bob nos.
Cwrw traddodiadol. Croeso i awyrgylch Gymreig
gan Berian a Beverley Wilkins a'u merched.

Cellan, Llambled

01570 422895

Llanbedr Pont Steffan



Yn ystod gwasanaeth cyflwynodd Arthur Roderick, ar ran y Gweinidog ac aelodau Capel Brondeifi, Llambod, lun o'r capel o waith Aerwen Griffiths i David Morgan am ei wasanaeth difluno dros 30 mlynedd fel ysgrifennydd y fynwent a threfnydd gweithgareddau yn y Festri. Cyflwynwyd siec iddo hefyd fel gwerthfawrogiad o'i waith gan Aneurin Jones. Yn y llun gyda'r tri gyda'r gweinidog Goronwy Evans.

Cylch Cinio

Cynhelir cyfarfod cyntaf y Cylch ar 6ed Hydref yng Ngwesty Glynhebog am 7:30 yh, Y Llywydd eleni yw'r Bnr. Elfan James, Mark Lane. Lluniwyd rhaglen amrywiol ar gyfer y tymor ac edrychir ymlaen eleni eto am gyfarfodydd diddorol a llwyddianus. Y Cynghorydd John Davies, Eglwyswrw, yw'r gwestai yn y cyfarfod cyntaf a bydd yn siarad am "Gymeriadau Bro'r Preseli". Os oes diddordeb gan unigolion i ymaelodi gellir cysylltu yn uniongyrchol gyda'r Llywydd am fanylion.

Diolch

Dymuna Nellie Williams, Stryd Newydd, Llambod, ddiolch o galon am yr holl gardiau, blodau ac anrhegion a dderbyniodd ar adeg ei phenblwydd yn 80 oed. Diolch yn fawr.

Llwyddiant Cerddorol

Llongyfarchiadau i Tanwen Owens, 7 Victoria Terrace am basio Gradd 3 ar y piano gyda chlod yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau hefyd i Rebeca Heath, 7 Bryn yr Eglwys am basio Gradd 2. Fe wnaeth Rebeca hefyd basio gyda chlod gan gael marciau llawn yn y gwaith technegol.

Diolch

Dymuna Iona Warmington, Falkland, Heol y Bryn, ddiolch i bawb am yr holl gardiau, galwadau ffôn, rhoddion a dymuniadau da yn sgil ei llawdriniaeth yn ysbty'r Heath yng Nghaerdydd yn ddiweddar. Diolch o galon i bawb am eu caredigrwydd, eu haelioni a'u consym.

Merched y Wawr

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor newydd yn Festri Capel Shiloh, Nos Lun 12fed o Fedi.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan un o'r llywyddion, Mrs Dilwen Roderick, a croesawodd Mrs

Beryl Davies yn ôl yn dilyn ei llawdriniaeth. Hefyd dymunodd yn dda i Mrs Gwyneth Morgan a Mrs Glesni Thoams gan bod y ddwy wedi treulio cyfnodau yn yr ysbty ers y cyfarfod diwethaf. Cydymdeimlodd a Mrs Brenda Morgan ar golli ei brawd yn ystod yr haf, a llongyfarchodd Mrs Llinos Jones ar ddathlu penblwydd arbennig yn ddiweddar.

Darllenwyd llythyr oddi wrth y Trefnydd Cenedlaethol gan y llywydd arall, sef Mrs Morfudd Slaymaker, yn rhestru gweithgareddau'r Mudiad am y tymor o'n blaen. Y thema eleni yw "Agor Drysau", a byddwn yn casglu allweddu fel un o'n prosiectau.

"Sgidiau'n Siarad" oedd prosiect y tymor diwethaf, a danfonwyd y swm anrhydeddus o £9,300 i "Gronfa Achub y Plant", sef elw'r gwerthiant o'r esgidiau a gasglwyd.

Y gwyr gwadd y noson oedd Mr Gary Slaymaker, Mr Tudur Owen a Mr Sam Jones o Dregaron - tri digrifwr a fu'n ein diddanu am ryw awr o amser gyda'u storiâu a'u hanesion digri. Noson i'w chofio a noson i godi'r galon gyda phawb yn chwervthin yn iach, ac yn mwynhau eu hunain.

Diolchodd Dilwen i'r tri am roi o'u hamser i ddod atom, a diolchodd hefyd i'r rhai fu'n gweini'r te, sef Mrs Eiry Jones, Mrs Gwen Jones a Mrs Ann Lewis. Enillydd y raffl misol oedd Mrs Gwynfil Griffiths.

Bydd y cyfarfod nesaf Nos Lun, Hydref y 10fed, pryd y disgwylir Mr Jon Meirion Jones i'n annerch. Croeso cynnes i aelodau newydd.

Cymdeithas Hanes.

Braf oedd gweld cymaint wedi troi allan a chroesawyd pawb i gyfarfod cyntaf y tymor newydd yn Hen Neuadd y Coleg gan Selwyn Walters, Cadeirydd.

Siaradwraig wadd y noson oedd Lara Bernays, arbenigwraig ym



Gwesteion Noson agoriadol Merched y Wawr Llanbed sef Tudur Owen a Gary Slaymaker gyda llywyddion y gangen Dilwen Roderick a Morfudd Slaymaker.

maes Gofal Iechyd Naturiol, sy'n gweithio yn Nhrefdraeth Sir Benfro. Fe'i ganwyd a'i magu ym Myddfai, a dywedodd fod Chwedl Llyn y Fan a Meddygon Myddfai wedi ei hysbrydoli'n ifanc iawn i gymeryd diddordeb yn y maes llysieuol. Graddiodd fel Llysieuwraig Feddygol o Brifysgol Westminster Llundain, a dychwelyd adre i weithio yn y maes hwnnw.

Thema ei haraith oedd Meddygyniaethau ar gof a chadw. Daeth a chasgliad o blanhigion o'r cloddiau a pherlysiâu o'r ardd gyda hi, a bu'n son am rinweddau'r rhain. Ond roedd am glywed pa feddygyniaethau oedd gan ei chynulleidfia ar gof, ac er mae ychydig ohonynt oedd yn dweud eu bod yn defnyddio llysiau fel hyn, roedd yn syndod fel y llifodd atgofion a phrofiadau oddiwrth hwn a'r llall yn ystod y noson. Mae'n amlwg fod defnyddio llawer o'r llysiau a'r planhigion yn rywbeth cynhenid ynom ni.

Mae Lara Bernays yn dal i wneud ymchwil yn y maes yma, ac yn gweithio gyda chanolfan yng Ngerddi Kew ac yn yr Ardd Fotaneg i gofnodi arferion o ddefnyddio llysiau naturiol at anhwylderau.

Diolchwyd iddi yn gynnes gan y Cadeirydd, a dywedodd fod ei brwdfrydedd heintus yn ei maes wedi dal sylw a diddordeb y gynulleidfia.

Bydd y cyfarfod nesaf Nos Fawrth Hydref 18fed am 7.30 yr hwyr yn Hen Neuadd Y Coleg pan fydd Julian Wormald yn dangos ei ffilm nodedig sy'n cofnodi bywyd yn Rhydcymerau yn 2010. Croeso cynnes i bawb.

Gyrfa Chwist – Cartref Hafan Deg

Ar 31ain o Awst cynhaliwyd Gyrfa Chwist yng Nghartref Hafan Deg gyda Mr Iorwerth Evans, Llangbyi yn arwain a Mrs Nancy Davies wrth law. Enillwyr fel a ganlyn – Dynion: 1af. Ray Jenkins, Llanybydder, 2il. Ifan

John Jones, Bro Henllys, Felinfach, 3ydd. John Jones, Stryd Newydd, Llambod, Merched: 1af. Eileen Colbourn, Ffostrasol, 2il. Lil Thomas, Ffostrasol, 3ydd. Nancy Davies, Heol y Wig, Llambod. Carden Miniature: Dynion, Peter Jones, Llambod, Merched, Nina Thomas, Prengwyn. Bwrw ALLAN: Enillwyr, Ray Jenkins, Llanybydder a Marged Davies, Ffostrasol, Ail. Gwyneth Williams, Prengwyn a Iorwerth Evans, Llangbyi.

Enillwyr 14eg o Fedi fel a ganlyn – Dynion: 1af. Gwendoline Jones, Llanybydder, 2il. Dai Davies, Pensinrig, Cellan, 3ydd. Gwen Davies, Llanwnnen, Merched: 1af. Ifan P. Jones, Aberarth, 2il. Sara Humphreys, Alltyblacca, 3ydd. Mary Evans, Llanwnnen, Carden Miniature: Dynion, Ifan J. Jones, Bro H

enllys, Felinfach, Merched, Peggi Davies, Brohenllys, Felinfach. Bwrw Allan: Enillwyr, Dai Davies a Nancy Davies, Llambod, Ail. Ray Jenkins, Llanybydder a Edward Lockyer, Hafandeg. Bydd Gyrfaedd Chwist mis Hydref ar nos Fercher y 12fed a'r 26ain.

Noddfa

Cynhaliwyd Cynhadledd Flynyddol Chwirydd Cymru ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant Medi 6-9 ar y thema "Galwad yr Emmanuel".

Ein Gweinidog y Parch Jill Tomos oedd yn gyfrifol am yr astudiaethau Beiblaidd a bu yna ganmoliaeth uchel iawn i'w chyfraniad gwerthfawr a'r cyfan yn dangos paratoi trylwyr. Roedd nos Fercher y Gynhadledd yn ngofal Janet ac ieuencid Noddfa a'i Mamau. Cafodd y cynadleddwyr eu cyfareddu wrth wrando ar eitemau amrywiol o safon uchel iawn. Roedd dawn arbennig Lowri Elen i'w weld yn amlwg wrth iddi gyflwyno unawd, emyn a detholiad o'r ysgrythur. Roedd pawb wrth eu bodd hefyd yn gwrando ar leisau

O'r Cynghorau Bro



Llongyfarchiadau i Elfan James ac Eddie Thomas Clwb Bowlio Llambled ar ennill Cystadleuaeth Bowlio Sir Ceredigion yn y Timau Dwbl Hŷn yn ddiweddar.

swynol Lisa, Beca ac Elan ynghyd â datganiad hyfryd gan y Mamau sef Alwena, Llinos a Iona. Yn ystod y noson ymunodd pawb i ganu emynau hen a newydd i gyfeiliant Alwena, Janet a Llinos. Ar y diwedd roedd ymateb y gynulleidfa yn dweud cyfrolau.

Diolchodd Carys Jones Llywydd y Chwiorydd i bawb am noson wych a erys yn y côf am amser hir. Fel arwydd o'i gwerthfawrogiad, derbyniodd y plant a'r oedolion anrheg yr un gan y Llywydd sef llyfr bach ysgrifennu deniadol iawn wedi ei greu gan drigolion Brazil. Mae'r Llywydd yn ymwelydd cyson â'r wlad. Diolchod Janet i'r cynadleddwyr am y gwahoddiad a'r croeso cynnes ac am eu hymateb brwd.

Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad dwys â phawb sydd wedi colli anwyliad yn ystod y mis.

Aelwyd yr Urdd

Erbyn i Clonc mis Hydref ddod o'r wasg bydd cyfarfod agoriadol tymor newydd Aelwyd yr Urdd wedi cymryd lle a rhaglen o weithgareddau amrywiol wedi ei threfnu, gobeithio!! Bydd yr aelodau yn parhau i gyfarfod yn Ysgol Ffynnonbedr bob yn ail nos Fawrth.

Am fanylion pellach cysyllter â Geinor Medi neu Janet. Tâl aelodaeth am y flwyddyn yw £6 cyn 19 Hydref a £6.50 ar ôl hynny. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 11 Hydref.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â Maer y Dref y Cyng. Hag Harries a'r bechgyn Daniel, Jo a Tomos o golli gwraig a mam annwyl iawn ym mherson Jan Harries. Hi oedd Maeres presennol Llambled ond bu'n brwydro'n ddewr yn erbyn salwch.

Cyngor Cymuned Llanwenog

Cadeirydd: Cyng. Bill Green, Clerc: Gwennan Davies

Ni chafwyd cyfarfod yn mis Awst ond ail-gydiwyd yn y trafodaethau yn ystod Mis Medi. Cafwyd cadarnhad wrth y Cyngor Sir y bydd biniau halen newydd yn dod i waelod rhiw yr ysgol yn Llanwenog ac un arall yn cael ei roi ar y rhiw sydd yn mynd allan o Gwrtnewydd am Capel y Groes.

Fe fynychodd y Cadeirydd gyfarfod dibrifio'r gaeaf yn ddiweddar a dywedwyd yno y byddai modd i'r Cyngor Cymuned brynu bocsys halen gwyrdd am bris ynghyd â halen ar gyfer y gaeaf. Y Cyngor Cymuned fyddai'n gyfrifol am wasgaru'r halen.

Daeth llythron i law wrth yr NSPCC, Urdd Gobaith Cymru a Oxygen Therapy Centre Cymru yn gofyn am gymorth ariannol. Gan eu bod yn elusennau lleol penderfynwyd eu cefnogi.

Daeth taflenni a llythr yn dweud am arian ewropeaidd sydd ar gael dan gynllun 'Balchder Pentrefi' er mwyn adnewyddu rhannau o'r plwyf neu wella cyflusterau. Penderfynwyd gofyn i'r swyddog ddod allan i siarad gyda ni yn y cyfarfod nesaf.

Hysbysebwyd y bydd yr heol rhwng Brynteg a Rhuddlan ar gau rhwng y 19/9/11 – 12/12/11 er mwyn ail osod y biben ddŵr.

Codwyd bod y Broadband yn Brynteg yn araf iawn ar hyn o bryd a ddim yn gweithio o gwbl ar brydiau. Cynghorwyd y bobl o fewn y pentref i ysgrifennu deiseb a'i ddanfôn i Elin Jones.

Dywedwyd bod rhai goleuadau stryd yn Alltlyblacca a Highmead Terrace dal ddim yn gweithio.

Cyngor Tref Llambled

Maer: Hag Harris, Clerc: Eleri Thomas, Cynghorydd Tref a Sir: Robert (Hag) Harris, Cynghorydd Sir: Ivor Williams. Cyfarfu'r Cyngor ar 25 Awst 2011 yn Neuadd yr Eglwys, Llanbedr Pont Steffan.

Offrymwyd gweddi gan Cecelia Barton.

Plismona Adroddwyd bod unigolyn wedi ei restio mewn achos yn ymwneud â chyffuriau. Bu rhaid galw am heddlu arfog yn dilyn lladrad yn Llansawel ym mis Gorffennaf. Mae'r heddlu'n gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y palmentydd yn Ffordd y Porthmyn yn ddiogel ar gyfer cerddwyr. Mae pebyll wedi eu codi ar Maesyderi er nad oes hawl i wneud hynny. Er bod Sgwar Harford a Pharc-yr-Orsedd yn barthau dialcohol, mae yfed alcohol yn dal yn broblem yn y parthau hyn.

Pwll Nofio Llambled Bydd Cyngor Ceredigion wedi derbyn cyfrifoldeb am y pwll nofio erbyn 19 Medi.

Nodwyd bod dau o'r pystion ar y cwmins wedi'u difrodi. Mae trefniadau wedi'u gwneud i drwsio cadwyn y maer.

Ym mis Medi disgwylir i Catherine Morgan wneud cyflwyniad ar y Prosiect Chwarae Cymunedol.

Cynrychiolwyd y Cyngor yng Nghyfarfod Blynyddol Cymdeithas Tai Cantref Yn Abergwaun. Mae Cantref yn darparu 1,406 o gartrefi a gwasanaethau i gymunedau ar draws gorllewin Cymru.

Mae Cyngor ar Bopeth yn cynnal cymorthfa yn y feddygfa bob dydd Llun ac yn Camfa bob dydd Iau.

Dyddiad y cyfarfod nesaf 29 Medi 2011 yn Neuadd yr Eglwys.

Cyngor Bro Llanllwni

Cadeirydd: Emyr Evans, Clerc: Eirlys Davies, Gohebydd y Wasg: Dewi Davies, Cynghorydd Sir: Linda Evans. Cyfarfu'r Cyngor ar 12 Medi 2011 yn Neuadd Gymundol Llanllwni.

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod. Cydymdeimlwyd ag ef ar golli ei frawd yng nghyfraith yn ddiweddar.

Plismona Croesawyd y Cwnstabl Rhydian Jones i'r cyfarfod. Cadarnhaodd ei fod wedi adrodd i'r Cyngor Sir am rai anawsterau diweddar yn y plwyf.

Y Maes Chwarae Cadarnhawyd bod y maes chwarae â'r adnoddau wedi cael eu harchwilio yn fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf gan Eric Davies. Cadarnhawyd gan y Clerc bod y Cae Chwarae wedi ei drosglwyddo i berchnogaeth y Cyngor Bro a bod copi o ddogfen y Gofrestrfa Dir wedi ei derbyn hefyd.

Blwch postio Cadarnhawyd gan Linda Evans bod y blwch postio yn mynd i gael ei ddychwelyd, ac y byddai'n cysylltu gyda'r post brenhinol unwaith yn rhagor.

Goleuadau ger y Talardd. Yr oedd ymholiadau wedi'u gwneud ond penderfynwyd peidio â mynd ymlaen â'r cais gan y byddai'n golygu cost ychwanegol blynyddol sylweddol i'r Cyngor Bro.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni ar 14 Tachwedd 2011.

Diolch yn fawr iawn i **Gyngor Bro Pencarreg** am eu cefnogaeth ariannol o £100 tuag at goffrau cynhyrchu Papur Bro CLONC. Gwerthfawrogi hyn y fawr iawn.

Ceris Morgan
yn trin gwallt yn eich cartref



**Tori a sychu, steilo a lliwio,
cwilo a gosod gwallt ar gyfer
achlysuron arbennig.**

Prisau rhesymol a
Diwrnod gostyniad i'r henoed
Ffoniwch: 07738 492613

Cwmann
ond yn barod i deithio'r ardal.



Masnachwyr / Amachyddol
Agricultural Merchants

Melin Mark Lane Mill
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AG
Tel: 01570 422540
Fax: 01570 423644
www.wdlewis.co.uk

Hefyd yn
Broneb Stores
Pumsaint, Llanwrda
Tel: 01558 650215



Creative Cove

**40A Y Stryd Fawr,
Llambled, 421985**



Ystod eang o offer swyddfa
a deunyddiau celf a chreffft
am brisau cystadleuol iawn.

Yn cynnwys:

- Certris inc a deunyddiau cyfrifiadurol eraill, - cardiau cyfarch,
- mapiau arolwg ordnans,
- deunyddiau postio a phacio,
- deunyddiau gwneud cardiau a llyfrau lloffion, - pecynnau crefft i oedolion a phlant, - paent Winsor a Newton,
- padiau brasluniau arlunwyr, cynfas a phapur dyfriliw.

Cefn-hafod

Gorsgoch
01570 434238



Dewch i fwynhau mewn awyrgylch Gymreig a chartrefol. Cewch ddewis eang o fwyd cartref blasus a chwrw da.

*Croeso cynnes oddi wrth
Geraint, Eiddwen a'r teulu.*

Arbenigwyr mewn bariau symudol at unrhyw achlysur allanol a dawnsfeydd ysgubor.

**WILLIAMS
& BOURNE**
CYFREITHIWR,
COMISIYNYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob
gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.

**1 Sgwâr Harford,
Llambled**

01570 422206 01570423540

A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanybydder,
Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

Melinau Gwynt

Mae'r grŵp a sefydlwyd i wrthwynebu bwriad Cwmni RES i blannu 21 o felinau gwynt ar Fynydd Llanllwni wedi bod yn craffu ar fersiwn diweddaraf 'Y Cynllun Datblygu Lleol' sydd wedi ei baratoi a'i gyhoeddi gan Adran Gynllunio Sir Caerfyrddin.

Mae'r ddogfen yn swmpus o ran ei maint ac o ran ei hansawdd. Mae llawer iawn i'w ganmol ynddi. Rhaid, yn sicr, longyfarch yr Adran Gynllunio ar barhau â'i pholisi o amddiffyn tirwedd unigryw Mynydd Llanllwni trwy ei gynnwys ym mholisi EQ6.

Un gair croes yn unig sydd rhwng y grŵp ac awduron y ddogfen. Mae hwnnw yn y rhan honno o'r cynllun lle y dywedir y dylai twrbinau gael eu lleoli o leiaf 1.5 km oddi wrth yr annedd agosaf. Barn Grŵp Achub Mynydd Llanllwni yw y dylai'r Cyngor ystyried cynyddu'r pellter i 2km oddi wrth yr annedd agosaf. Dyma'r pellter a awgrymwyd gan Sir Ceredigion yng Nghynllun Datblygu Lleol Ceredigion. Ceir cynnig gweithredu tebyg ar gyfer tirweddau agored yn PAN 45 Llywodraeth yr Alban.

Y mis hwn cynigir dwy ddelwedd. Yr olygfa bresennol o ffin y plwyf a geir yn y naill lun. Yr olygfa pe cai bwriadau cwmni RES eu gwireddu yw'r ddelwedd yn y llall. Mae'r cyfrifoldeb ar drigolion plwyf Llanllwni i ddiogelu tirwedd agored Mynydd Llanllwni yn fawr. Mae'r cyfrifoldeb ar bawb yng ngogledd y sir yn fawr. Mae'r cyfrifoldeb sydd ar ysgwyddau ein cynghorwyr sir a'n cynllunwyr sirol a chenedlaethol yn fwy fyth.

John Jones, Talardd a Hengae, yw cadeirydd y mudiad a ffurfiwyd yn Llanllwni i wrthsefyll bwriad cwmni RES. Gellir cysylltu â John am wybodaeth bellach ar 01559 395309



Ffenest

Croeso i'r gornel gîtar. Fis diwethaf dysgon ni cordiau "Em" a "D". Erbyn hyn rydych wedi sylweddoli fod eich bysedd yn brifo wrth ymarfer a'i bod yn anodd gwasgu lawr y tannau i greu cord. Peidiwch â rhoi'r ffidil yn y tô. Mi ddaw. Ymarfer yn gyson am ddeng munud bob dydd a bydd pethau'n gwella gyda chroen blaen eich bysedd llaw chwith yn caledi gymaint fel ni fydd poen mwyach!

YMARFER

Dylech ddal cord Em a symud i gord D ac wedyn yn ôl ac ymlaen, heb ganu'r gîtar o gwbl, dim ond ymarfer symud y bysedd i ffurfio'r cord mor gyflym ag sydd bosibl. Dyma sydd raid ei ymarfer yn galed a chyson er mwyn bod yn barod i ddysgu'r gân.

Gyda llaw, oherwydd hawlfraint, ni fydd yn bosibl cyhoeddi'r cerddoriaeth yn CLONC ac felly gwglwch "Oh Sinner Man" ac mi ddowch o hyd i'r gerddoriaeth yn rhad ac am ddim ar y we.

RHYTHM

Er mwyn creu rhythm ar y gîtar, edrychwn ar y llaw dde yn awr. Dyma ddau esiampl ar gyfer y gân 33 CHILE (mis diwethaf). Bydd y ddau yn dibynnu arnoch yn plycio'r tannau. Plycio yw defnyddio bysedd y llaw dde, yn aml iawn yn unigol, i daro tannau unigol e.e. bydd y bawd ar y llaw dde yn taro tant E (tewaf) pan fyddwch yn canu Em ar y gîtar. Pan fyddwch yn canu cord "D", bydd y bawd yn plycio tant D.

Rhifwn fysedd y llaw dde yn union fel y llaw chwith, o 1 i 4 (lleiaf) ond y tro hwn, gan ein bod yn defnyddio'r bawd, gelwir y bawd yn "B" ar gyfer cyfarwyddiadau plycio.

33 CHILE – Rhythm Plycio (a):

Ffurfiwch Em.

Bawd yn plycio E(tewaf), gweddill y bysedd yn brwsio lawr dros y tannau (Pedair o weithiau)

Ffurfiwch D.

Bawd yn plycio D, gweddill y bysedd yn brwsio lawr dros y tannau (Pedair o weithiau).

Ymarfer hyn tua deg o weithiau i gyfarwyddo â'r rhythm.

Rhythm Plycio (b):

Daliwch Em.

Bawd yn plycio E (tewaf), wedyn, bysedd 1,2 a 3, gyda'i gilydd yn plycio tannau G,B,E (y tannau ar y gwaेलod) Gnewch hyn bedair gwaith.

Daliwch D.

Bawd yn plycio D, ar ôl hyn, bysedd 1,2 a 3 yn plycio gyda'i gilydd yr un tannau.

Mae gwaith ymarfer gyda chi!

TIWNIO'R GÎTAR

E,A,D,G,B ac E yw enwau'r tannau. Gallwch glywed hwy ar y piano. Os nad oes gennych biano, gallwch brynu "pitch pipes" yn unrhyw siop gîtar a defnyddio hwy i gyrraedd y nodau cywir. Set o chwech o bibau bychain ydynt, un ar gyfer pob tant.

Os na fyddwch deall rhai o'r cyfarwyddiadau, dewch i'r Hedyn Mwstard rhwng 4 a 5 prynhawn Gwener, i'r ystafell gefn. Daliwch ati!

Carpedi

Gwyn Lewis Cyf

Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349

Cegin Coedlannau

'Bwyd cartref ar gyfer
pob achlysur'

* Cacenau pen-blwydd gyda llun
(ffotograff)

* Bwffe mawr neu fach

* Danteithion i de

* Pwdinau

* Arlwyio ar gyfer pob achlysur



Sirian Davies, Coedlannau

Fach, Cwrtnewydd,

01570 434 243

07815 962 045



REFLEXOLOGY

Gall y driniaeth yma eich helpu, os
ydych yn dioddef o'r canlynol:

* Blinder / diffyg egni

* Meigrin

* Sciatica

* Irritable Bowel Syndrome

* Menstrual problems

* a mwy

Os am ragor o wybodaeth
cysylltwch â Carol Rees

01545 590164

07929 559561

Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhebog

Llanbedr Pont Steffan

☎ 01570 422644

Oes angen cyngor arnoch?

Mae gennym arbenigedd cyfreithiol
mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFiant,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A
MODD I'W LEIHU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth
mae croeso i chi gysylltu â ni.

ADVE

ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS
CYFREITHWYR

33 Stryd Fawr, Llambod

☎ 01570 422517 ☎ 01570 423244

Alec Page Gof



Gwaith metal o safon
i'r tŷ a'r ardd.

Dewch i drafod eich syniadau.

Yr Efail, Barley Mow,
Llambled.

01570 423955

COMPASS OFFICE SUPPLIES



Am eich holl
ddeunydd swyddfa

Uned 19, Stâd Ddiwydiannol
Llambled, Heol Tregaron,
Llambled.

☎ 01570 422955
☎ 01570 422232

T. Emyr Jones Adeiladwr



Araul, Cwmann

☎ 01570 423921
☎ 07867 945174

CANOLFAN ADDURNO

**AA
A**

Dewis arbennig o bapur, paent ac
offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a
phwerau, Polion a thraciau llenni,
gwasanaeth torri allwedd i
pheiriannau cymysgu paent
Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.
3 Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
01570 423156

Cludfwyd Indiaidd NEHAR



Y bwyd wedi ei goginio'n fres bob dydd.

15% o ostyngiad
ar archebion dros £10.00.

Y cogydd â dros 20 mlynedd o brofiad o
weithio mewn sefydliad indiaidd.

10 Stryd y Bont, Llambled
☎ 01570 422893 / 422175

Llanybydder

Llwyddiant Cerddorol

Llongyfarchiadau i Catrin Davies,
Llwyn am basio 'Step 2' ar y piano
gyda chlod.

Gymdeithas Diabetic Llanybydder a'r cylch

Cynhaliwyd cyfarfod o
Gymdeithas Diabetic Llanybydder
a'r cylch yn Festri Aberduar Nos
Fawrth 13 Medi 2011 pan fu Janet
Thomas Nyrs Diabetic arbennig
Ysbyty Glangwili yn son am y
pwmp Insulin sydd yn cael ei
ddefnyddio i reoli Diabetes.

Ers y cyfarfod diwethaf mae
£4,000 wedi ei ddanfoni i Gronfa
Diabetic Oedolion Ysbyty
Glangwili, £4,000. i Gronfa Plant
Diabetic Ysbyty Glangwili a hefyd
£4,000. i Swyddfa Cymru Diabetes
UK at ymchwil.

Mae'r gangen am ddiolch i
aelodau Côr Cwmann ar Cylch am
y rhodd hael o £420. Rhan o elw
nos Hufen a Mefus a gynhaliwyd yn
Festri Brondeifi ym mis Mehefin.

Diolch i bawb am eu cefnogaeth
drwy'r flwyddyn.

Wyres fach

Llongyfarchiadau i Wil a Mali
Evans, Rylwyn, Stryd y Farchnad ar
ddod yn ddatcu a mamgu unwaith
eto, merch fach, Erin Mair i Huw ac
Annwen yn Llanllwni.

Diolch

Dymuna Ada Williams,
Brynmerau ddiolch o galon am y llu
cardiau, anrhegion, blodau ac arian
a dderbyniodd tuag at Ganolfan
Ddydd Hafan Deg ar achlysur ei
phenblwydd yn 100 oed.

Gwellhad Buan

Dymunwn adferiad llwyr a buan
i Gareth Davies, Llys Enwyn sydd
wedi derbyn triniaeth lawfeddygol
yn Ysbyty Spire, Bryste yn
ddiweddard. Dal ati i wella.


Cerdd

Llongyfarchiadau calonnog i
Elin Davies, Tyngrug-Isaf ar basio
arholiad Gradd 1 Ysgrifenedig
gydag anrhydedd, hefyd Gradd 2
Piano gyda theilyngdod a Betsan
Jones, Highview, Gradd 4 piano
gyda theilyngdod. Cynhaliwyd yr
arholiadau dan nawdd y Coleg Cerdd
Brenhinol.

Côr Lleisiau'r Werin

Ar ddiwedd tymor eithaf prysur,
teithiodd y côr, ynghyd â ffrindiau, i
fyny i Wrecsam i berfformio ar un o
lwyfannau perfformio yr Eisteddfod.
Dyma'r bumed tro i'r côr ddiddanu
cynulleidfa eang yn yr Eisteddfod a
chael hwyl wrth wneud.

Ar ôl treulio diwrnod pleserus yn
yr Eisteddfod rhaid oedd troi am
adre gan stopio am bryd o fwyd
blasus iawn yng Ngwesty Llety Parc,



Cynhaliwyd noson lwyddiannus yng nglwb rygbi Llanybydder nos
Sadwrn 24ain o Fis Medi lle bu Dai Jenkins Llansawel, Clive Edwards
Hendy Gwyn a'r Dâf a Meinir Ann Llanpumpsaunt yn diddori y gynulleidfa,
gyda'r elw yn mynd tuag at bwyllgor Ymchwil Cancer Llambled a
Llanybydder. Llywyddion y noson oedd Kevin a Ann Davies Ceir Cawdor
Castellnewydd Emlyn. Yn y llun gwelir Kevin yn cyflwyno siec tuag at y
noson i Aneurin Davies cadeirydd y pwyllgor a threfnydd y noson.

Llanbadarn.

Rydym yn cwrdd yn wythnosol ar
nos Iau yn Festri Capel Aberduar am
7.00y.h. Croesawn aelodau newydd.
Am fwy o wybodaeth neu i drefnu
cyngerdd cysylltwch â ni ar 01559
395418.

Diolch

Dymuna Marlene, Gareth,
Andrew a'u teuluoedd gydnabod
yn ddiolchgar am bob arwydd o
gydymdeimlad a phob caredigrwydd
a estynnwyd iddynt yn eu
profedigaeth trist o golli gŵr, tad
a thad-cu annwyl iawn sef Keith
Williams, Pantllyn.

Merched y Wawr

Ar nos Lun, Medi 26ain fe
ail-gydiodd Merched y Wawr
Llanybydder a'r fro yn eu
cyfarfodydd.

Cyflwynodd Ann Milcoy ein
llywydd am y flwyddyn newydd i
Joan Jones o Lambed oedd wedi dod
i ddangos ei champweithiau gwaith
llaw.

Cawsom noswaith fendigedig
yng nghwmni Joan a hithau yn ei
ffordd gartrefol a'i hiwmor iach
yn esbonio'r gwahanol dechnegau
ynghlwm â'r gwaith.

Dywedodd fel roedd wedi dysgu
popeth ei hun trwy fynychu clybiau
Merched y Wawr a Sefydliad y
Merched.

Roedd esiamplau o waith cywrain
iawn gan Joan yn amrywio o waith
croesbwyth, gwaith manwl yn
defnyddio gleiniau bychain i greu
lluniau hardd, gwau, crosio, spanish
blackwork, drawn thread, patchwork
i enwi ond ychydig o'r amrywiaeth o
waith oedd ganddi.

Roedd pawb wedi dwli sut oedd
defnyddio'r barddoniaeth gan feirdd
fel Dic Jones a W.J. Gruffydd.
Gwnio'r penillion fel rhan o'r
brodwaith ac yna gwnio lluniau o

gwmpas y penillion. Un roeddem
wedi mwynhau ei weld yn fawr
oedd llun o fwthyn a rhosod o'i flaen
gyda'r llinellau yma i gyd-fynd a'r
gwaith:

Wrth symud i gartref newydd
Bydded i Dduw bob dydd
Goroni pob llawenydd.

Diolchodd Gwen Jones i Joan
am fod mor garedig a derbyn ein
gwahoddiad i arddangos ei gwaith
i ni.

Rydym yn edrych ymlaen at ein
cyfarfod nesaf pan fyddwn yn cael
gwrs cadw'n heini gan Paul Jones.

Peidiwch a dweud wrth neb ond
yn dilyn y sesiwn ymarfer corff
byddwn yn mynd am swper i'r
bwyty Indiaidd yn Llambled. Sshh!!

Bore Goffi

Cynhelir Bore Goffi ar Ddydd
Sadwrn 5ed o Dachwedd o 10.30am
tan 1.00pm yn Eglwys San Pedr,
Llanybydder. Bydd stondinau ar
gael hefyd yn gwerthu cynnyrch
cartref a man bethau. Holl elw tuag
at gronfa'r Eglwys San Pedr. Croeso
cynnes i bawb.

SEFYDLIAD PRYDEINIG Y GALON

ARDAL LLANYBYDDER /
LLANBEDR PONT STEFFAN

NOSON BINGO gyda Harold

Yn Clwb Rygbi Llanybydder

18 Hydref 2011 8 y.h.

Elw tuag at
BHF Nyrs Calon Ceredigion

Rhif elusen 225971

Cadwyn Cyfrinachau



Enw: Sion Jones
Oed: 23
Pentref: Felinfach
Gwaith: Gwerthwr Ceir
Partner: Angharad Evans
Teulu: Mam, Dad, Rhodri fy mrawd a Sara fy chwaer.

Unrhyw hoff atgof plentyndod.
Chwarae pêl-droed yng 'nghae donkey' Felinfach!

Hoff raglen deledu pan oeddet yn blentyn.
Match Of The Day.

Y peth pwysicaf a ddysgest yn blentyn.
Bod yn ddiolchgar.

Taset ti'n gallu mynd nôl mewn amser, beth fyddet ti'n dweud wrth dy hun yn 16 oed?
Gwneud yn fawr o bob cyfle.

Y CD cyntaf a brynest di erioed?
Albwm cyntaf Stereophonics.

Pan oeddet yn blentyn, beth oeddet eisiau bod ar ôl tyfu?
Pêl-droediwr Proffesiynol.

Beth oedd y peth ofnadwy wnest ti i gael row gan rywun?
Taflu wyau yn yr ysgol!

Beth oedd y frawddeg bachu gorau a ddefnyddiaist erioed?
Mae dy goesau siŵr o fod 'di blino, ti 'di bod yn rhedeg trwy fy meddwl i drwy'r nos!

Pryd a ble wyt ti mwyaf hapus?
Gwylïo tîm pêl-droed Wrecsam ar y Cae Ras – er mae'n dibynnu ar y sgôr!

Pwy yw dy arwyr?
Ryan Giggs.

Taset ti'n fisged, pa fath fyddet ti?
Cream Cracker – ffefryn pawb!

Taset ti'n anifail, pa anifail fyddet ti a pham?
Tarw yn ôl fy arwydd geni (Taurus).



Beth yw'r peth gorau am dy swydd bresennol?
Cael gyrru ceir newydd.

A beth yw'r peth gwaethaf?
Gorfod gweithio penwythnosau.

Y peth gorau am yr ardal hon?
Mae'n ddi-drais ar y cyfan.

Y peth gwaethaf am yr ardal hon?
Pawb yn gwybod busnes pawb!!

Sut fyddet ti'n gwario £10,000 mewn awr?
Prynu 10,000 o docynnau loteri!

Beth sy'n codi ofn arnat?
Colli iechyd.

Beth oedd yr eiliad balchaf i ti'n broffesiynol?
Cael fy swydd llawn amser gyntaf.

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n heini?
Ymarfer yn gyson a bwyta'n iach.

Beth yw'r cyngor gorau a roddwyd i ti?
Cymeryd un dydd ar y tro.

Disgrifia dy hun mewn tri gair.
Tlawd a balch!

Pa gar wyt ti'n gyrru?
Amrywiaeth o Vauxhalls!

Beth yw dy hoff wisg?
Crys-T a Jîns,

A'th hoff adeilad?
Stadiwm Pêl-droed Wrecsam – Y Cae Ras.

Beth yw'r cludfwyd o'th ddewis?
Indian.

Beth yw dy ddiod arferol?
Dŵr!

Beth yw dy hoff arogl?
Swper ar ôl diwrnod hir yn y gwaith!

Sut wyt ti'n ymlacio?
Yng nghwmni ffrindiau ar nos Sadwrn.

Sawl ffrind sydd gennyt ti ar facebook?
Tua 800.

Pa raglenni sydd ar dy Sky+?
Llawn rhaglenni Pêl-droed!

Sawl tecst y dydd wyt ti hala?
10 – 20.

Pa ffilm welaist ti ddiwethaf?
The Hangover 2.

Pa un peth fyddet ti'n newid am dy hun?
Bod yn fwy effro yn y bore!

Beth sy'n rhoi egni i ti?
Diwrnod llwyddiannus yn y gwaith.

Beth sy'n rhoi ysbrydoliaeth i ti?
Darllen hunangofiannau unigolion ysbrydoledig fel Joe Calzaghe,

Ar beth y gwnest orwario arno fwyaf?
Gwylïau yn Ibiza!

Pa beth wyt ti'n ei drysori fwyaf?
Teulu a ffrindiau.

Pwy sy'n ddylanwad arnat ti?
Fy rhieni.

Y gwylïau gorau?
Gwylïau gyda fy ffrindiau coleg yn Ayia Napa 2009.

Pa dair gwlad yr hoffet fynd iddyn nhw cyn marw?
Seland Newydd, Awstralia ac America.

Pa dri pheth yr hoffet ti wneud cyn dy fod yn ddeugain?
Ennill y loteri, teithio'r byd a rhedeg busnes fy hunan.

Arferion gwael?
Gadael pethau i'r funud olaf!

Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob boc yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw _____
Cyfeiriad _____
Cod post _____
Rhif Ffôn _____

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

					9
1					6
	6		1	9	
	4		5		2
		6	8		1
		8		4	
					3
6				7	3
	7				
	2				
					1
					9

Atebion Swdocw mis Medi:

Llongyfarchiadau i: Janet Williams, Lynden, Caerfyrddin a diolch i bawb arall am gystadlu: Joan Stacey, Tynwaun, Ffaldybrenin a Shirley Walker, Heol-y-Gaer, Llanybydder.

4	2	1	5	6	9	8	7	3
3	6	7	4	8	1	5	9	2
9	5	8	3	2	7	1	4	6
7	9	5	6	1	3	4	2	8
8	1	2	7	9	4	3	6	5
6	4	3	2	5	8	9	1	7
5	7	9	8	4	6	2	3	1
2	3	4	1	7	5	6	8	9
1	8	6	9	3	2	7	5	4

Ysgol Campws Llanbedr Pont Steffan



Daeth llwyddiant ysgubol eto i ran Ffynnonbedr yn Eisteddfod Llambled eleni. Cipiodd yr ysgol y gwpan a £50 am yr ysgol uchaf ei marciau yn yr adran gelf a chrefft. Llongyfarchiadau i'r plant a fu'n llwyddiannus ac i'r staff a fu wrthi'n ddiwyd yn eu paratoi. Dyma'r canlyniadau:- Creu cerdyn – 3ydd Anthony Casiday, Addurno llwy bren – 1af Tomos Jones Addurno wy – 2ail – Matthew Legg 3ydd Najwa Abdul Lapio anrheg penblwydd – 2ail Elan Jones 3ydd Tomos Jones Ffotograffiaeth – 1af Elan Jones 2ail Osian Jones Llawysgrifen Ca1 – 1af Catrin Daniel, Llawysgrifen Ca 2 – 1af Murshid Mohdaderi 3ydd Osian Jones Arlunio Meithrin a Derbyn 1af Kesley Nisbett 2ail Fay Jones 3ydd Hywel Jones Arlunio bl 1 a 2 – 1af Tegan Miles 2ail Georgina Price 3ydd Ifan Morgan Arlunio bl 3 a 4 – 1af Tom Hills 2ail Rika Zinn 3ydd Elan Jones Arlunio bl 5 a 6 - 2ail Tomos Jones DT CA1 - 1af Michaela Michelle DT Ca 2 1af Elan Jones 3ydd Osian Jones Celf cyfrifiadurol CA 1 – 1af James 2ail Austin a Simon 3ydd Aimee a Kieran Celf cyfrifiadurol CA2 – 1af Bea Casiday 2ail Bryn Jones 3ydd Samantha Weller Price.



Christina Smith o Ffynnonbedr yn derbyn cwpan cyfeillgarwch.

Ffynnonbedr

Edrychwn ymlaen fel ysgol at gael croesawu ymwelwyr o wahanol wledydd yn Ewrop atom yn ystod mis Hydref a diolch i Mrs Wenna Howard am baratoi rhaglen gyffrous ar eu cyfer. Rydym wedi cynnal diwrnod Ewropeaidd yn yr ysgol yn barod gyda phob dosbarth yn canolbwyntio ar wlad arbennig.

Cafwyd llawer o hwyl a dysgwyd am ddiwylliannau a ieithoedd gwahanol. Mae disgyblion blwyddyn 6 wedi bod yn mwynhau gwersi Technoleg a Gwyddoniaeth yn y sector Uwchradd fel rhan o'r pontio blynyddol.

Rydym yn falch hefyd i glywed fod Mrs Amanda Jones ar wellhad ac edrychwn ymlaen at ei chael yn ôl yn ein plith.

Yr Ysgol Gyfun



Yn ddiweddar, bu disgyblion B112 i gyd yn brysur yn darganfod mwy am sgiliau mentergarwch mewn gweithdy a gynhaliwyd gan Yrfa Cymru. Bu rhaid iddynt sefydlu a rhedeg busnes eu hunain yn ogystal â chwarae rôl rheolwyr. O ganlyniad, gwelwyd sgiliau gwaith tîm a chyfathrebu'r disgyblion yn amlygu eu hunain yn ogystal â'u gallu i ddatrys problem.

Cafwyd cyflwyniadau diddorol iawn gan y disgyblion ar y diwedd. Diolch i Liz James a Iona Jones o Yrfa Cymru am gynnal y gweithdai.

Ar Ddydd Gwener, Medi'r 9fed, cafwyd llawer o hwyl yng Nghanolfan Gweithgaredd Llain gyda'r Flwyddyn 12 newydd yn cwblhau gweithgareddau adeiladu tîm. Erbyn diwedd y diwrnod roedd pawb yn wlyb at y croen a'n hen gyfarwydd 'da mwd ond roedd yn ddiwrnod da.

Hoffem groesawi Mr Tony Vobe fel pennaeth newydd yr Adran Gwyddoniaeth a Mr Rhydian Jones fel athro hanes newydd.

Gwefannau Cymunedol:

Capel Bethel Parcyrrhos: www.bethel.btck.co.uk
 Cerddorfa Siambr Llambled: www.lampeter-orchestra.co.uk
 Clwb Cledlyn: www.clwb-cledlyn.org.uk
 Clwb Ffermwyr Ifanc Llanwenog: www.cffillanwenog.org.uk
 Clwb Moduro Llambled a'r ardal: www.ldmc.org.uk
 Clwb Rygbi Llambled: www.clwbrygbillambled.org
 Coleg Llambled: www.ydrindoddewisant.ac.uk
 Côr Cardi-Gân: www.corcardi-gan.com
 Côr Meibion Cwmann: www.corcwmann.btck.co.uk
 Côr Merched Côrisma: www.corisma.btck.co.uk
 Cwmann: www.cwmann.btck.co.uk
 Cyngor Tref Llambled: www.lampeter-tc.gov.uk
 Cymdeithas Cerdd Llambled: www.lampetermusic.co.uk
 Ffair Fwyd Llambled: www.lampeterfoodfestival.org.uk
 Ffair Ram: www.ffairram.btck.co.uk
 Ffarmers: www.ffarmers.org
 Gwenynwyr Llambled: www.lampeterbeekeepersassociation.co.uk
 Llanfair Clydogau: www.llanfairclydogau.co.uk
 Llanllwni: www.llanllwni.co.uk
 Llanybydder: www.llanybydder.org.uk
 Menter Llambled: www.lampeter.org
 Neuadd Mileniwm Cellan: www.cellanmillenniumhall.co.uk
 Papur Bro Clonc: www.clonc.co.uk
 Plwyf Llanwenog: www.plwyflanwenog.com
 Pwll Nofio Llambled: www.lampeterpool.com
 Sgowtiaid Llambled: www.1stlampeter.co.uk
 Transition Llambled: www.transition-llambled.org.uk
 Y Ford Gron Llambled: www.lampeterroundtable.org.uk
 Ysgol Carreg Hirfaen: www.carreghirfaen.amdro.org.uk
 Ysgol Cwrtnewydd: www.cwrtnewydd.ceredigion.sch.uk
 Ysgol Ffynnonbedr: www.fffynnonbedr.ceredigion.sch.uk
 Ysgol Gyfun: www.ysgol-llambled.org.uk
 Ysgol Llanwenog: www.ysgolllanwenog.co.uk
 Ysgol Llanwnnen: www.ysgolllanwnnen.co.uk
 Ysgol y Dderi: www.ydderi.ceredigion.sch.uk

Os am ychwanegu at y rhestr, anfonwch ddolen at cadeirydd@clonc.co.uk

Yn y Cegin gyda Gareth



Mwynhau Llysiau llawn lliw.

Gyda chymaint o lysiau yn dod i'r amlwg ac yn cael eu cynaeafu y mis yma, teimlaf mai braf o beth fyddai dewis rysetiau gyda'r llysiau yma ynddynt. Teimla llawer ohonom ein bod yn fwy iachus wrth dorri lawr ar gymaint o gig y bwydau bob wythnos ac yn edrych am ffordd arall i gael ein 'protîn'. Mae'r rysetiau yma'n flasus ac yn faethlon ac wrth gwrs yn cadw pawb o'r teulu yn hapus ac yn llawn.

Mwynhewch 'flas yr Hydref'
Gareth

Llysiau wedi'u pobi.

Cynhwysion –

- 450 gm; 1 pwys o datws wedi'u crafu a'u torri'n gwarteri.
- 225 gm; 8 owns, o foron wedi'u sleisio
- Halen a phupur
- 1 winwnsyn wedi'i ddarnio
- 50 gm 2 owns o hadau blodyn-yr-haul (Sunflower).
- Olew i ffrio
- ¼ llond llwy de o bêr-lysiau cymysg
- 2 genhinen wedi'u sleisio
- 2 ewyn o arllwg wedi'u gwasgu
- 2 'courgette' wedi'u sleisio
- 100 gm 4 owns o fadarch wedi'u sleisio
- 1 llond llwy fwrdd o gaws.



Dull

- Berwch y tatws a'r moron gyda'i gilydd mewn dŵr berwedig gyda halen. Hidlwch y cyfan a'u pwno'n dda. Ffriwch y winwnsyn a'r hadau blodau'r-haul yn yr olew nes bod y winwnsyn yn feddal. Cymysgwch gyda'r gymysgedd tatws. Ychwanegwch y pêr-lysiau, halen a phupur.
- Ffriwch y cennin a'r garlleg yn yr olew am 5 munud, ychwanegwch y courgette a'r madarch, ffriwch am 2 – 3 munud.
- Rhowch hanner y gymysgedd cennin mewn dysgyl, rhowch hanner y gymysgedd tatws dros y cyfan, wedyn gweddill y cennin ac yna gweddill y tatws.
- Gwasgarwch y caws dros y cyfan. Coginiwch yn y ffwrn ar wres o 200° C, 400° F, Nwy 6 am 25 munud nes bod y cyfan yn euraid.

Byrgers llysiau

Cynhwysion

- 1 winwnsyn wedi'i gratio
- 1½ pwys o gabetsen wen wedi'i gratio
- 225 gm 8owns o foron wedi'i gratio
- 100 gm 4owns o gnau wedi'i darnio
- 100 gm 4 owns o friwsion bara brown
- 1 ŵy
- 1 llond llwy de o bêr-lysiau cymysg
- 3 llond llwy fwrdd o saws 'soy'
- Halen a Phupur ac ychydig olew i ffrio
- 25 gm 1 owns o flawd plaen.



Dull

- Cymysgwch y cynhwysion i gyd, heblaw'r fflŵr, gyda'i gilydd a rhennwch y gymysgedd yn 8 byrger. Gorchuddiwch â'r fflŵr.
- Twymwch yr olew mewn padell ffrio. Coginiwch y byrgers, dwy neu dair ar y tro, am 5 – 7 munud nes yn euraid. Rhwch ar bapur cegin i gael gwared o'r saim a chadwch nhw'n dwym tra'n coginio'r gweddill.
- Gweinwch mewn bynsen gyda digon o 'bicyl' cartre.

Os ydych yn ymateb i hysbyseb yn CLONC, dywedwch wrth y cwmni ymhle y gwelsoch yr hysbyseb.

Rhifyn mis Tachwedd
Yn y Siopau
3ydd Tachwedd
Erthyglau, Newyddion
a Llundain i law erbyn
24ain Hydref

MIS y PAPUR Newydd

Colofn Dylan Iorwerth

Dameg y busnes bach

Roedd yna dristwch wrth glywed fod un o fusnesau da ardal Clonc wedi cael ei werthu - mae Llaethdy Highmead wedi rhoi gwasanaeth gwerth chweil.

Mae'n hawdd deall pam mai hwn oedd yr amser iawn i ildio'r awenau ac roedd hi'n destun edmygedd fod y cwmni wedi aros yn lleol ac annibynnol am gyhyd. Ond mae'r stori'n nodweddiadol o'r hyn sy'n digwydd i'r diwydiant llaeth – a sawl diwydiant arall – yng Nghymru.

Bob tro, pan fydd gwleidyddion yn sôn am wella ffyrdd, maen nhw'n dweud y bydd hynny'n help i greu gwaith. Fel arall y mae hi'n aml. Mae gwell ffyrdd o'r gorllewin i'r dwyrain hefyd yn ei gwneud hi'n haws i fusnesau o Loegr ddod i mewn a gweithredu o'r ochr draw i Glawdd Offa.

Er fod gorllewin Cymru yn dal i fod yn un o'r ardaloedd llaeth gorau, mae'r rhan fwyaf o'r gwaith prosesu llaeth wedi symud i'r dwyrain, yn bellach oddi wrth y cynhyrchwyr ac yn nes at y cwsmeriaid. Mae hynny, wrth gwrs, yn golygu fod yr elw mawr yn mynd i'r dwyrain hefyd.

Oherwydd ei bod hi mor hawdd teithio, mae cadwyni siopau a chwmnïau mawr yn defnyddio busnesau o bell i wneud pethau fel cynnal a chadw - un cytundeb mawr tros ardaloedd eang, yn hytrach na darparwyr lleol.

Dyd'r chwyldro mewn technoleg newydd ddim yn fêl i gyd chwaith. Os ydy hi'n haws i fusnes fel Golwg weithredu o Lanbed, oherwydd e-bost a band eang, mae hi'n llawer haws hefyd i fusnesau o ben draw'r byd gyrraedd cwsmeriaid yng nghalon Dyffryn Teifi.

Dyna pam fod eisiau edrych yn fwy gofalus pan fydd archfarchnad fawr yn ceisio cael hawl i agor mewn trefi yng nghefn gwlad Cymru. Nid siopau bach eraill ydy'r unig rai i ddiode', ond yr holl wasanaethau eraill sy'n cynnal busnesau bach – o gyfreithwyr i seiri coed.

Dyna pam ei bod yn destun pryder fod sôn am Tesco'n dod i Aberystwyth – ein hardal ni, o Gaerfyrddin i Borthmadog, yw un o'r llefydd mwya' di-Desco yng ngwledydd Prydain, ond fe allai hynny newid.

Y peryg wedyn ydy fod trefi eraill yn meddwl bod rhaid iddyn nhw gystadlu, rhag colli busnes. Gobeithio y bydd cynghorwyr Llanbed – a pherchnogion tir – yn aros yn gadarn er mwyn lles y busnesau lleol sydd yma.

Mae hyn i gyd yn rheswm tros ystyried yn ofalus hefyd cyn datganoli'r hawl i godi trethi i Gymru. Mae'r egwyddor yn iawn, ond mae yna beryg anferth os na chaiff ei wneud yn iawn. Fydd ateb syml ddim yn gweithio.

Y gwir ydy ein bod ni'n gweithio o fewn system economaidd sydd wedi ei sgiwio yn ein herbyn. Mae'r cyfan yn ei gwneud hi'n haws i fusnesau mawr o bell, ar draul y bach a'r lleol. O gysylltiadau traffig a thechnoleg, i gytundebau cyhoeddus a rheolau cynllunio.

Ar lawer ystyr mae Cymru'n debyg i Wlad Groeg o fewn y system Ewropeaidd. Ryden ni'n gorfod gweithio dan amodau sy'n siwtio rhannau eraill o gwledydd Prydain – fel Llundain a'r de-ddwyrain. Nid damwain ydy hi fod rhannau mwy gogleddol o Loegr hefyd yn diodde'r un peth.

Nid cwyno er mwyn cwyno ydy hyn. Nid mynd yn ôl tros hen hanes. Mae'r ffordd y mae economi gwledydd Prydain wedi cael ei lywio tros y canrifoedd yn cael effaith arnon ni heddiw. Os ydy'r elw'n llifo o Gymru, mae'r incwm trethi bownd o fod yn ei ddilyn.

Tan ychydig flynyddoedd yn ôl, mi allen ni fod wedi edrych ar Iwerddon a cheisio'i dynwared hi. Ar ôl blynyddoedd o galedi, fe lamodd hi ymlaen yn economaidd ... cyn syrthio'n ôl. Efallai y codith hi eto.

Rhywsut neu'i gilydd – datganoli neu beidio – mae'r atebion i economi Cymru, ac ardal Clonc, yn ein dwylo ni. Fydd hynny ddim yn hawdd. Ond chawn ni ddim ffafrau gan neb arall.



Cegin Gareth
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313

Blodau
Cacennau
Dathliadau
Partion

Adloniant

Theatr
FELINFACH

Mae mis arall wedi hedfan a dyma ni bellach yn darllen rhifyn mis Hydref gyda fi, Ffion Medi (Swyddog Diwylliant Bro) yn dod a holl hynt a helynt y Theatr ar eich cyfer. Rydym wedi cael dechrau prysur iawn i'r tymor eisioes gyda phrosiectau newydd sbon yn dechrau yn ogystal â chroesawu nifer o berfformiadau i'r theatr. Braf cyhoeddi fod Brasgam wedi ail-ddechrau y tymor hwn ar nos Fercher, gyda Salsa i'r oedolion a sesiynau Theatr Gerdd i bobol ifanc rhwng 11-18 oed. Hefyd cafwyd llond lle o blant, mamau a mam-gu's yn sesiwn gyntaf Tic-Toc. Felly cofiwch, bob bore Gwener am 10.00 (ag eithrio wythnos hanner tymor) sesiwn stori, dawns a chân i rieni a phlant 0-3oed. Mae cymdeithasau'r ganolfan hefyd wedi ail-ddechrau'r flwyddyn waith, Hwyl a Hamdden a'r Clwb Garddio i enwi ond dau – cofiwch fod croeso i bawb, cysylltwch â ni am fwy o fanylion.

GŴYL HWYL IEUENCTID Daeth criw o bobol ifanc y sir at ei gilydd i gydweithio gyda Anna ap Robert (Swyddog Ieuencid) ar brosiect newydd a chyffrous ac maent wrthi'n brysur ar hyn o bryd yn trefnu GŴYL HWYL IEUENCTID fydd yn digwydd yn ystod Hanner Tymor yr Hydref. Cyfle gwych i bobl ifanc 11-18oed gymryd rhan mewn gweithdai arbenigol a chael cyngor proffesiynol gan rhai o artistiaid amlycaf Cymru, fel Ryland Teifi, Eleri Sion, Dewi Pws a Rhys ap Hywel, i enwi dim ond rhai! Ac i goroni'r cyfan bydd Gig gyda Ryland Teifi ar y nos Wener i orffen yr wythnos mewn steil! Mae'r gig yn agored i bawb o bob oed, a braf fydd croesawu Ryland adre' o'r Iwerddon am gyfnod bach.

Yn ogystal â bwrlwm y tîm dysgu, mae amserlen y Theatr yn llawn dop gyda gweithgareddau o bob math! Edrychwn ymlaen at Sioe Dathlu 70 oed Clybiau Ffermwy'r Ifanc Ceredigion 13-15 Hydref, At Swim Two Boys gan Earthfall ar Hydref 22ain, Salsa Cynhyrchiad Theatr na n'Og Tachwedd 2il a llawer llawer mwy! Heb anghofio'r Pantomeim blynyddol gan Gwmni Actorion Theatr Felinfach wrth gws, 3-10 Rhagfyr. Cofiwch archebu eich tocynnau nawr!! Mae rhywbeth at ddant pawb!

Hwyl am y tro! - 01570 470 697 www.theatrfelinfach.com

Cofio DJ

Brynhawn Sadwrn 17 Medi cynhaliwyd cyfarfod yng nghapel Rhydcymerau i goffáu y llenor a'r cenedlaetholwr D J Williams (1885-1970). Roedd Rhydcymerau yn rhan o filltir sgwar D J ac ysgrifennodd hanes chwarter canrif cyntaf ei fywyd yn y ddwy gyfrol 'Hen Dŷ Ffarm' ac 'Yn Chwech ar Hugain Oed'. Bu D J yn gweithio ar y tir cyn symud i chwilio am waith i byllau glo de Cymru. Yn ddiweddarach enillodd raddau ym Mhrifysgol Cymru a Rhydychen. Roedd yn un o aelodau cynnar Plaid Cymru ac yn ymgyrchydd diffino gydol ei oes.

Bydd llawer o ddarlennwyr CLONC yn cofio am ei weithgarwch yn ardal Llanybydder a Chwm-ann adeg etholiad.

Am ei ran yn llosgi'r ysgol fomio ym Mhenyberth treuliodd D J gyfnod yn Wormwood Scrubs yn 1936. Ei waith mwyaf hoffus, mae'n siwr, yw 'Hen Wynebau' lle y mae'n disgrifio rhai o gymeriadau a chreaduriaid bro ei febyd. Mae 'Storiau'r Tir' yn gyfres o storïau byrion cofiadwy. Fe'n hatgoffwyd am hyn gan Emyr Hywel, cofiannydd DJ, a chan Jonathan Edwards A.S. yn y cyfarfod yn y capel. Mae'r holl hanes a'r holl gysylltiadau yng nghyrol Emyr Hywel 'Y Cawr o Rydcymerau: Cofiant D J Williams' (Gwasg y Lolfa).

Roedd swyddogion yr etholaeth wedi sylwi bod cyflwr y bedd yn dechrau dirywio'n ddiweddar ac aethpwyd ati dan arweiniad Siân Thomas, cadeirydd yr etholaeth, i aileuro'r llythrennau. Gosododd Jonathan Edwards flodau ar fedd D J ac fe'n hatgoffwyd ar lan y bedd gan Peter Hughes Griffiths am gyfraniad D J a D O Davies, sy'n gorwedd gerllaw, i'r mudiad cenedlaethol yn Sir Gaerfyrddin ac yng Nghymru.



Llanwnnen

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Megan Mai Jones, Blaenhedd, Blaencwrt, Llanwnnen ar ennill y gystadleuaeth Canu Emyr o dan naw oed yn Eisteddfod Felinfach 24 Medi 2011.

Sefydliad y Merched, Llanwnnen.

Cychwynwyd tymor yr Hydref gydag ymweliad a Melin Ddŵr, Felin Ganol, Llanrhystud. Wedi crynodeb byr o hanes y Felincafwyd cyfle i weld y rhod ddŵr yn troi a'r gwenith yn cael ei falu. Braf oedd gweld un o'r hen ddiwydiannau cefn gwlad wedi'i adnewyddu ac yn gweithio unwaith eto. Cafwyd paned o de a chyfle i flasau y cacennau blasus, cynnyrch y felin a'r ardd hyfryd oedd yno.

Ymlaen wedyn i'r Royal Oak yn Llanrhystud lle cafwyd swper blasus. Enillwyd cystadleuaeth y mis gan Ceinwen Roach. Diolchodd ein Llywydd, Mrs Gwen Davies, i Ceinwen a Mary am drefnu'r trip. Cynhelir y cyfarfod nesaf yng ngwesty'r Grannell ar nos Lun 3ydd Hydref am 7.30yh.

Pen-blwydd Hapus

Pen-blwydd Hapus yn ddeunaw oed i Deloni Davies, Glas y Dorlan a ddathlodd ei phen-blwydd ganol y mis.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys gyda theulu'r diweddar Evan James [Jimmy] Thomas a fu farw yn Ysbyty Bronglais ar ddechrau mis Medi.

Anrhydedd

Llongyfarchiadau i Manon Richards, Lowtre ar gael ei hethol yn Gadeirydd C.F.F.I. Ceredigion am y flwyddyn 2011/12. Dymuniadau gorau i ti yn ystod y flwyddyn prysur gan bydd y mudiad yn dathlu ei benblwydd yn 70 oed.

Ysgol Llanwnnen

Croeso i Ffion Morgan aelod newydd o'r ysgol sydd wedi ymuno â blwyddyn Derbyn. Gobeithio y byddi di'n hapus iawn gyda ni yn yr ysgol.

Llongyfarchiadau i dîm pêl droed merched yr ysgol am ennill cystadleuaeth WI Ceredigion ar ddiwedd y tymor diwethaf ac hefyd i'r bechgyn a gyrhaeddodd y rowndiau go gynderfynol.



Diolch i bawb a gefnogodd ein Ffair Haf ddiwedd tymor yr haf. Cafwyd noson hwylus iawn ac fe gododd yr ysgol yn bell dros £1,500. Llongyfarchiadau mawr i'r plant a fu'n cystadlu yn y gystadleuaeth 5 bob ochr ac yn arbennig i blant ysgol Carreg Hirfaen a enillodd gwpan y bechgyn a'r merched. Da iawn chi a diolch am gefnogaeth yr holl ysgolion eraill a fu'n cymryd rhan.

Mae Clwb yr Urdd, Clwb Coginio, Clwb Cyfrifiaduron a Champau'r Ddraig bellach wedi ail gydio a diolch i'r staff ac i Mrs Lynwen Jenkins am roi o'u hamser gyda'r clybiau hyn.

Dymuna staff a disgyblion Ysgol Gynradd Llanwnnen ben-blwydd hapus i Miss Heddwyn Davies, Pennaeth Ysgol Llanwnnog a Llanwnnen ar ddathlu ei phenblwydd yn 40 oed ddiwedd Medi.

Braf yw gweld bod y Cynllun Tair Ysgol eisioes wedi ail gychwyn a braf oedd croesawu Blwyddyn 4 Ysgolion Cwrtnewydd a Llanwnnog atom yn ystod y mis.

Cydymdeimlwn fel ysgol gyda Mrs Shan Davies ein cogyddes wedi iddi colli ei brawd yn ddiweddar.

Cynhelir ein Cwrdd Diolchgarwch blynyddol yng Nghapel Cribyn ar 13 Hydref am 7.00yh. Croeso cynnes i bawb i ymuno gyda ni yn y gwasanaeth ac hefyd am baned o de a chyfle i gymdeithasu wedi hynny.

Llanllwni

Sioe CFFI Llanllwni

Ar ddydd Llun Gŵyl y Banc Awst, cynhaliwyd Treialon Cŵn Defaid a sioe C.Ff.I Llanllwni ar gaeau Abercwm trwy garedigrwydd Mr a Mrs Davies a'r teulu. Braf oedd gweld tyrfa dda o bobl ar y cae ar ddiwrnod mor braf. Gwelwyd cystadlu brwd yn y treialon cŵn defaid, y tent, a'r defaid. Da beth oedd hynny.



Llywyddion y dydd eleni oedd Mr a Mrs Williams, Rhydlydan, Pumsaint. Braf oedd cael eu cwmni a diolch iddynt am eu rhodd haelionus. Cynhaliwyd sioe fideo am wyth yr hwyr yn nhafarn y Talardd ac yna ocsiwn i gloi'r noson. Cafwyd tipyn o hwyl gydag Mr Dewi Davies yn gwerthu eitemau di-ri. Uchafbwynt y dydd oedd gweld Geraint Evans, Pantycoubal sef un o arweinyddion y clwb yn cipio y wbor gyntaf yn y gystadleuaeth "Victoria Sponge". Tipyn o gamp rhaid gweud gan bod 11 wedi cystadlu yn y gystadleuaeth. Llongyfarchiadau mawr i ti a dal ati!

Gan gofio nad oedd y ffermwyr ifanc yn gwneud unrhyw elw, mae swm sylweddol o £1800 wedi cael ei godi hyd yn hyn at yr elusen a ddewiswyd, sef Cancr y Fron, Ysbyty Tywysog Phillip, Llanelli. Os mae unrhyw un am gyfrannu mae dal croeso i chi wneud.

Dymunau C.F.F.I. Llanllwni ddiolch i'r holl noddwyr am eu cyfraniadau, y beirniaid am eu gwaith, i'r cystadleuwyr am eu cefnogaeth, y stiwardiaid ynghyd â phawb arall a wnaeth helpu. Diolch i chi gyd!

Dyma'r canlyniadau:

Treialon Cŵn Defaid: Agored Cenedlaethol: 1. John Davies, Blaenglowon (Mel); 2. Martha Morgan (Sheo); 3. Martha Morgan (Becks) 4. Sian Jones (Mist) 5. Sandra Gibson (Tammy) 6. W. P. Lloyd Jones (Davy). Agored De Cymru: 1. I. B. Jones (Joe) 2. Martha Morgan (Becks) 3. W. P. Lloyd-Jones (Davy) 4. I. B. Jones (Wil) 5. W. P. Lloyd-Jones (Taff) 6. John Bowen (Jess). Nofis De Cymru: 1. John Whittton (Meg) 2. Christine Soar (Ruby) 3. John Bowen (Bell) 4. Charles Bowen (Ken) 5. Iestyn Owen (Tim) 6. Sian Jones (Milly).

Sioe Adran Garddwriaeth: Mr John Evans, Aberdeuddwr, Llanllwni; Adran Flodau: Mr Eirwyn Evans, Dulais, Llanllwni; Adran Goginio: Miss Elen Jones, Felin Gelli, Llanllwni; Adran Cyffeithiau a Gwîn: Mr John Jones, Hengau, Llanllwni; Adran Defaid Mynydd: Jones, Blaenblodau, New Inn; Adran Defaid Iseldir: Evans, Pantycoubal, Gwernogle; Pencampwyr Defaid: Jones, Blaenblodau, New Inn; Adran Gwartheg Godro: Howells, Gwarallt, Llanllwni; Adran Gwartheg Eidion: Jones, Blaenwaun-Ganol, Llanwnnen; Pencampwyr Gwartheg: Howells, Gwarallt, Llanllwni; Adran Cynnyrch Fferm: Mrs Catrin George, Haulfryn, New Inn; Adran Plant Dan 7: Hannah Thomas, Bryn, Llanllwni; Adran Plant 7-11: Daniel Thomas, Bryn, Llanllwni; Adran Plant 12-16: Betsan Jones, Highview, Llanllwni

Ar ddiwedd Mis Gorffennaf cynhaliwyd noson 'It's a Knockout' a BBQ blynyddol y clwb ar caeau Glanafon. Braf oedd gweld 8 tîm yn cystadlu a llongyfarchadau i'r tîm buddigol sef Sion Evans, Carwyn Lewis, Ben Dufty, Gethin Davies, Dan Joynson o C.Ff.I Llanllwni.

Ar ddechrau Mis Awst cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinon Blynyddol y Clwb a chafodd y swyddogion isod eu ethol am y flwyddyn sydd i ddod: Cadeirydd: Daniel Joynson, Brithdir, Llidiad Nenog; Ysgrifenyddes: Meryl Davies, Bryn-y-Coed, Pencader; Trysorydd: Elin Evns, Frongelli, New Inn; Ysgrifenyddes Cofnodion: Betsan Jones, Highview, Llanllwni; Ysgrifenydd y Wasg: Josh Joynson, Brithdir, Llidiad Nenog. Hoffwn ddymuno pob lwc i'r swyddogion yn ei swyddi newydd!

Braf yw gweld aelodau newydd yn llawn brwdfrydedd ac yn fwy na pharod i ymuno yng ngweithgareddau'r clwb. Cafom noson llawn hwyl a sbri yng ngofal yr arweinyddion i croesawu yr aelodau newydd. Yn ystod yr wythnosau nesaf fe fyddwn yn ymweld a Brigad Dân Caerfyrddin, Cwis i'r aelodau ac yn paratoi go gyfer a Eisteddfod flynyddol y Sir.

Ysgol Llanllwni

Croeso i Elan Evans, Tilly Jones ac Owen Thomas atom. Maent wedi setlo yn nosbarth y Babanod ac yn hapus iawn ymhlith eu ffrindiau.

Bu nifer o'r plant yn llwyddiannus mewn gwahanol gystadlaethau mewn sioeau yn ystod yr haf. Llongyfarchiadau i chi gyd.

Datblygu sgiliau hoci wnawn yn ein sesiynau Campau'r Ddraig hyd at wyliau hanner tymor. Rydyn yn ddiolchgar i'r Cyngor Bro am y gyfraniad ariannol tuag at gostau bws nofio am y tymor.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol dros y misoedd diwethaf:

Mis Gorffennaf: £50 – 176 – Aled Davies, Sw-n-Y-Nant, Felinfach. £40 – 60 – Mair Thomas, Llwynfallen, Heol Llanwnnen. £30 – 46 – Dirk Vanrijswijk, Gilwen, Llanllwni. £10 – 234 – Mair Jones, Brynsiriol, Llanllwni. £5 – 54 – Adrian Jenkins, Y Garth, Henllan. £5 – 198 – Dave a Tracey, Siop Y Pentre, Llanllwni. £2.50 – 141 – Elonwy Jones, Tirbanal, Llanymddyfri. £2.50 – 156 – Susan Pendle, Bro Nantlais, Gwyddgrug. £2.50 – 2 – Sophie Jones, Nanthendre (upper farm house), Llanllwni.

Mis Awst: £10 – 113 – Hannah Davies, 15 Bro Nantlais, Gwyddgrug. £5 – 100 – Owain Davies, Gwndwn, Llanllwni. £2.50 – 181 – Anne Thorne, Glennydd, Llanllwni. £2.50 – 43 – Wendy Rhodes, 4 Bryndulais, Llanllwni. £2.50 – 12 – Adam Hallmark, Frondeg, Llanllwni.

Mis Medi: £10 – 219 – M. McRae, Awel Y Grug, Llanllwni. £5 – 80 – Alan a Mair Lewis, 1 Penrhiw, Aberbanc. £2.50 – 118 – Alun Williams, Rhydlydan, Pumsaint. £2.50 – 132 – Allan Jones, Maes Y Llyn, Maesycrugiau, Pencader. £2.50 – 156 – Susan Pendle, Bro Nantlais, Gwyddgrug.

Undeb y Mamau, Eglwys Sant Luc, Llanllwni.

Mae tymor 2011-12 wedi ail-ddechrau gyda gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid yn yr Eglwys, dan arweiniad ein Ficer sef y Parch. Suzie Bale. Mae'r gangen yn cwrdd ar yr ail ddydd Mawrth o'r mis dan arweiniad Mrs. Janet Howells, ac mae'r aelodaeth yn dal yn gryf. Mae'r cyfarfodydd am ddau y prynhawn yn Neuadd Gymunedol Llanllwni, sy'n fan delfrydol ar ôl iddi gael ei hadnewyddu. Yn anffodus fe gollwyd aelod ffyddlon eleni sef Mrs. Nancy Evans, Llannerch (Undergrove gynt). Mae'r coffa yn dda amdani. Ar nodyn hapusach mae aelod arall sef Mrs. Sarah Jones yn dathlu penblwydd arbennig iawn – a bydd naw deg o gannhwyllau ar y gacen ar Fedi'r 27ain! Llongyfarchiadau gwresog iddi.

Cafwyd rhaglen ddiddorol ac amrywiol yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Cawsom siaradwyr diddorol, ac fe'n harweiniwyd i nifer o feysydd newydd. Diwedddwyd y tymor gyda thaith ym mws y gymuned. Yn gynta ymwelwyd a Gerddi Cae Hir yng Nghribyn, a synnu a rhyfeddu faint o waith sy wedi ei wneud yno. Aethom ymlaen wedyn am orig neu ddwy i Aberaeron, cyn troi am Landysul, a Gwasg Gomer. Roedd yn agoriad llygad i weld yr holl beiriannau argraffu a chlywed am y gwaith sy'n cael ei gario allan ar y safle. Diolch i'r Cwmni am eu croeso.

Gorffennwyd y diwrnod gyda swper yn Y Talardd, Llanllwni, a chael croeso twymgalon iawn gan John ac Ann Jones.

Mae croeso i aelodau newydd ymuno a'r gangen.

Penblwydd Arbennig

Penblwydd Hapus i Sarah Jones, Sarn Helen ar gyrraedd 90 oed ar y 27ain o Fedi.

Priodas Ruddem

Llongyfarchiadau i Mike a Rena Harrington, Pontdulais Hall ar ddathlu ei Priodas Ruddem ar Fedi 22ain.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â theulu a pherthnasau y diweddar Jennie Jones, Hafdre a fu farw ym mis Medi.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Annwen a Huw Evans, Park Lane ar enedigaeth merch fach, Erin Mair, chwaer fach i Iestyn. Dymuniadau gorau hefyd, i mamgu a datcu sef Geraint ac Eiddwen Rees, Maes-y-celyn ar enedigaeth ei wyres fach.

Ar wellhad

Croeso adref a phob dymuniad da i Mair Davies, Abercwm ar ôl triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty'r Tywysog Phillip Llanelli.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Owain Jones, Maes y Llyn ar dderbyn gradd Athro mewn Peirianneg Electronig a Thrydanol (M.Eng [Hons]) o Brifysgol Caerdydd. Dymunir pob lwc iddo wrth ddechrau ei yrfa yn Crawley.

Llanllwni

Cylch Meithrin Llanllwni

Mae'r Cylch yn dathlu 20 mlynedd o ddysgu plantos bach yr ardal yr Hydref yma ac yr ydym wedi trefnu cyfres o ddigwyddiadau i ddathlu gan cychwyn gyda Sioe Fasiwn Shwldimwl yn Nhafarn Talardd ar y 26ain o Hydref am 7.30 yh. Yr ydym yn falch i wahodd yn ôl Margaret Davies Cadeirydd cyntaf y Cylch yn Lywydd ar y noson. Bydd yna Ffair Nadolig i ddilyn ar yr 12fed o Dachwedd pan fydd yna nifer o gwmniau crefft lleol yn gwerthu nwyddau o safon. Croeso i chi ymuno gyda ni i'r ddau ddigwyddiad yma a chael cyfle i brynu anrheg Dolig arbennig – bydd yna fwy o fanylion am y Ffair Nadolig yn rhifyn nesaf o'r Clonc.

Cylch Ti a Fi

Mae yna groeso i famau/thadau neu mamgu's a thadcu's i alw draw gyda'ch plantos bach i Ti a Fi yn Ysgol Llanllwni bob bore Iau o 9 tan 11. Mae'r plant yn cael hwyl wrth chwarae tra bod yr oedolion yn cael chlonc a dishd.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i'r Cyng. Linda ac Emrys Evans, Ceunant ar ddod yn ddatcu a mamgu am y tro cyntaf Nel sef merch fach, i Heulwen a'i gŵr Huw yn Nhrimsaran ger Llanelli. Pob dymuniad da i chwi fel teulu.

Silian

Llwyddiant Cerddorol

Llongyfarchiadau i Delyth Evans, Tangraig am basio Gradd 5 gyda chlod ar y piano yn ddiweddar. Cafodd hi farciau llawn yn y theori hefyd.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddwys â Beryl, Alun a'r teulu oll Glantawela ar golli Mam, Mam-gu a Hen Fam-gu annwyl ym mherson Jennie Davies, Llambod.

Cwmsychpant

Gwellhad buan

Gobeithio bod Mrs Betty Jones, Delfan yn gwella yn dilyn llawdriniaeth yn Ysbyty Tywysog Phillip Llanelli.

Gobeithio bod Dorian Rees Maesllwyd yn well yn dilyn ei llawdriniaeth ef hefyd.

Merched y Wawr Y Dderi

Dechreuwyd y tymor newydd trwy gael ymweliad gan y Bon. Andrew Jones. Croesawyd pawb i'r cyfarfod agored gan y llywydd Lettie Vaughan. Cafwyd noson ddiddorol a dedwydd yn llawn hiwmor yng nghwmni y gŵr gwadd. Diolchwyd yn gynnes iawn iddo am noson gofiadwy gan Mary Jones.

Rhoddwyd y raffl gan Jennifer Cairns a Mair Spate ac fe hennillwyd gan Odwyn Davies, Irene Lewes, Iris Quan a Mair Spate.

I ddiweddu y cyfarfod cafwyd paned a bisgedi wedi ei rhoddi gan Gwyneth a Deborah Jones.

Dymunwyd adferiad buan a llwyr i Eleanor Evans a diolchwyd i'r rhai fu yn adolygu y cyfrifon a gwneud y rhaglenni.

I'r cyfarfod nesaf rydym yn disgwyl Lona Phillips ac fe fydd yn ein hannerch am y Clefyd y Siwgr. Croeso cynnes i unrhywun sydd a diddordeb yn y pwnc i fynychu'r cyfarfod ar nos Fercher, Hydref 19eg yn Ysgol y Dderi am 7.30y.h.

Aferiad

Dymunir adferiad buan a llwyr i Mr Allan Jones, Hengoed ar ôl iddo dreulio ysbaid yn Ysbyty Bronglais. Brysiwch wella.

Hamdden

Fe fydd Hamdden yn ail gychwyn yn Ysgol Y Dderi ar bryhawn Gwener, Hydref 7fed am 2.00y.p. Croeso cynnes i aelodau newydd.

Ysgol Y Dderi

Croeso cynnes i Miss Lisa sydd wedi ymuno â ni i ddysgu ym mlwyddyn 3 ac i Miss Lynwen sydd bellach yn rhan o dîm y Cyfnod Sylfaen ac yn cynorthwyo'n rhan amser yn y Meithrin. Croeso hefyd i blant bach newydd sydd wedi dechrau yn yr uned Feithrin ac yng nghorff yr ysgol ar ddechrau'r tymor.

Dymuniadau gorau i Mrs Tracy sydd wedi bod yn cynorthwyo yn yr ysgol ers 5 mlynedd ac yn awr wedi penderfynu dilyn cwrs gradd mewn astudiaethau gwaith cymdeithasol ym Mhrifysgol Abertawe. Pob hwyl i ti Tracy a diolch am dy ymroddiad i fywyd Ysgol Y Dderi.

Llongyfarchiadau mawr i gyn-ddisgyblion yr ysgol sydd wedi llwyddo mewn arholiadau TGAU a Lefel A dros yr haf a phob hwyl i chi yn y dyfodol.

Dathlwyd diwrnod Cwpan Rygbi'r Byd ar ddydd Llun 26ain o Hydref pan ddaeth y plant a'r staff i'r ysgol gan gynrychioli un o'r gwledydd sydd yn cymryd rhan. Roedd hyn yn gyfle gwyb i ddysgu'n drawsgwricwlaidd ac i ddysgu am y gystadleuaeth arbennig yma ac am wledydd amrywiol ein byd.

Llangybi a Betws



Cyn i'r ysgol gau dros wyliau'r haf cynhaliodd Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol y Dderi "Ffair Haf" lwyddiannus pryd y codwyd dros £1,600 o arian. Yn dilyn hyn cyfrannodd Banc Barclays £750 drwy ei cynllun £ am £. Yn anffodus methodd Marian Jones o'r Banc a bod yn presennol. Dymuna'r ysgol ddiolch i bawb am eu cefnogaeth. Yn y llun mae Mara Morris, Cymdeithas Rhieni ac Athrawon ac Eiddwen Rees gyda chynrychiolaeth o blant yr ysgol.



Aelodau Pwyllgor Eco ac Iach Ysgol y Dderi gyda'u hathrawes Miss Caryl Davies sydd yn ymfalchio fod yr ysgol newydd ennill y Faner Werdd am yr ail dro.




Cafwyd noson hwylus iawn wrth i ddisgyblion, rhieni, athrawon a ffrindiau Ysgol Y Dderi ymuno gyda'i gilydd mewn taith feicio ar hyd llwybr Longwood. Roedd pawb wedi mwynhau'r daith ac yn barod i'r barbicw oedd yn dilyn yng Nghlwb Rygbi Llanbed. Yna cafodd y plant gyfle i ddawnsio mewn disgo a'r rhieni i gymdeithasu gyda'i gilydd. Diolch i bawb a wnaeth gynorthwyo i wneud y noson yn un hwylus dros ben.

Mae'r ysgol wedi derbyn y Faner Werdd am yr ail dro oherwydd ein gwaith cadwriaethol. Diolch i Miss Caryl am ei gwaith yn arwain Bwrdd Eco ac Iach yn eu hymdrechion.

Diolch o galon i Fanc Barclays ac i Mrs Marian Jones o'r gangen leol am ein noddi 'Punt am Bunt' adeg ein Ffair Haf. Derbyniwyd y swm anrhydeddus o £750 at gronfa Rhieni ac Athrawon yr Ysgol. 'Rydym yn werthfawrogi iawn o'ch ymroddiad tuag at elusenau.

Os hoffech gynorthwyo'r gwirfoddolwyr gyda'r gwaith o gynhyrchu'r papur hwn, croeso i chi gysylltu ag un o'r bwrdd busnes.

Enwau Lleoedd Lleol gan David Thorne



Rhagor o enwau o ardal Wrecsam

Mae nifer o ddarllenwyr CLONC wedi'u swyno gan enwau lleoedd ardal Wrecsam. Dyma gais i ateb rhai ymholiadau.

Grango

Enw cymharol ddiweddar yw Grango. Yr enw ar ysgol uwchradd Rhosllannerchrugog yw Ysgol y Grango. Cefndir diwydiannol sydd i'r enw hwn. Mae'r enw yn tarddu o 'crank-coal' sef glo a gloddid o wythien lewyrchus sy'n estyn o Bwcle i Bersham. Roedd y glo yn cael ei godi i'r wyneb trwy ddefnyddio 'crank' yn y peiriannau. Roedd 'crank-coal' nid yn unig yn enw ar wythien er 1791, ond hefyd yn enw ar bwl a siafft ym mhyllau Brynrywen yng ngolwg yr ysgol uwchradd. Pan agorwyd yr ysgol gyntaf yn 1906, trigai'r prifathro, mewn tŷ o'r enw Grango View. Y siafft a alwyd yn Crank-coal a roddodd yr enw Cranco, aeth hwnnw'n Grango ac yna yn Y Grango.

Bersham, Bers

Mae'r enw hwn wedi ei gofnodi mewn cyfnod cynnar (1202) yn y ffurf Beretessa. Digwydd Bersham yn 1315. Dôl sy'n eiddo i Bers yw un esboniad ar yr enw; mae Bers yn enw personol Hen Saesneg a 'hamm' yn dynodi 'dôl' yn yr iaith honno. Mae enw personol + 'hamm' yn batrwm cyffredin yn enwau lleoedd yr ardal ac yn digwydd yn yr enw Wrecsam yn ogystal. Posibilrwydd arall yw fod yr elfen gyntaf yn tarddu o'r Saesneg Canol 'bers' sef 'gwrych plethedig; tir coediog wedi ei gau i mewn'. Collodd y sillaf olaf yn ffurf Gymraeg yr enw, sef Bers.

Bwcle, Buckley

Dwy elfen o Hen Saesneg a geir yn yr enw hwn, o bosibl, sef enw personol Hen Saesneg, Bocca, a 'leah' sy'n dynodi 'coedwig' mewn Hen Saesneg.

Posibilrwydd arall yw fod yr elfen gyntaf i'w chysylltu â'r ffurf hen Saesneg 'boc' sef 'ffawydd'. Ond anhawster gyda'r esboniad hwn yw mai yn y 18fed ganrif y dechreuwyd planu coed ffawydd yng Nghymru; mae'r cofnod cynharaf o'r enw lle yn Sir y Fflint, serch hynny, yn digwydd yn 1198. Wedi dweud hyn mae enwau sy'n cynnwys yr elfen 'boc' sef 'ffawydd' yn digwydd yn Swydd Gaer mor gynnar â 1086.

Cymhlethdod ychwanegol yw bod elfen gyntaf yr enw wedi'i chysylltu yn ogystal â'r Hen Saesneg 'bucc' sef 'bwch'. Mae tystiolaeth fod parc ceirw wedi ei chreu yma yng nghanol y drydedd ganrif ar ddeg gan Roger de Mohault ac i hwnnw gael ei ddinistrio gan Lywelyn ap Gruffydd yn 1257. Yr anhawster gyda'r cynnig hwn yw'r dyddiad 1198 a grybwyllwyd eisoes. Enw anodd.

Ffurf yr enw erbyn hyn ar dafod y trigolion lleol yw 'Bookley' ac mae'r ffurf honno'n adlewychu cyniad Cymraeg yr enw, o bosibl, yn ogystal ag ymyrraeth ieithyddol mewnudwyr o ogledd Lloegr.

Rydym yn gyfarwydd ag enwau lleoedd sy'n cynnwys yr elfen 'llan-'. Dywedir bod 324 o enwau lleoedd o'r fath yng Nghymru. Dim ond tri ohonyn nhw, sut bynnag, sydd yn Sir y Fflint. Anodd yw ceisio egluro'r rheswm dros brinder enwau'n cynnwys yr elfen 'llan' yn y sir hon; un eglurhad yw bod enwau o Mersia wedi disodli enwau Cymraeg gwreiddiol y fro hon mewn cyfnod cynnar.

Y tro nesaf dychwelwn i drafod rhai enwau lleol gan ystyried Rasol, Ffostrasol a Talardd.

Colofn y C.Ff.I.



Ceredigion

Dros yr haf bu aelodau'r mudiad yn brysur iawn gwahanol gweithgareddau. Wrth ddod i derfyn gyda blwyddyn y CFFI, y cystadleuaeth olaf oedd y Sioe Frenhinol. Pleser oedd gweld nifer o aelodau'r Sir yn llwyddo eleni eto. Dyma canlyniadau o'r sioe:- Arddangosfa Ffederasiwn 5ed, Crefft- Glyn Rhys Jones 3ydd, Coginio- Fflur Davies a Owain Rees 5ed, Cystadleuthau'r aelodau 5ed, Meimio i'r gerddoriaeth 5ed, Barnu Gwartheg Henffordd- dan 18 Ceris James 2il, dan 21 Dewi Jenkins 5ed, tim 2il, Barnu Merold Cymreig Adran 'A'- dan 16 Delyth Evans 1af, dan 26 Catrin Reed 1af, tim 4ydd, Barnu Defaid Suffolk- dan 16 Ifan Morgan 4ydd, Barnu Stoc Cyffredinol 4ydd, Arwerthiant CFFI 5ed, Her Addasu 3ydd, Cnifio Defaid 2il, CFFI Ffactor 5ed, Band yr ardd wedi'i ailgylchu 2il, Tynnu'r Gelyn- Merched 6ed, Bechgyn 5ed, Gwaith Coed 2il. Arddangosfa Brwydro'r Elfennau 3ydd, Sioe Deithiol Atal Tan 1af, Ffensio 2il. Daeth Ceredigion yn 4ydd ar ol wythnos brysur iawn.

Ar ddechrau mis Awst bu cystadleuaeth Treialon Cwn Defaid y Sie. Bu'n ddiwrnod llwyddiannus ac hoffwn ddiolch i bawb am eu cefnogaeth. Yn dod i'r brig eleni oedd Dewi Jenkins o Talybont.

Cafodd aelod gweithgar o'r Sir ei ethol i gynrhychioli Prydain a Gogledd Iwerddon ar fwrdd Ieuencid Glwedig Ewrop. Yn Slovenia cafodd Gwennan Davies o Glwb Llanwenog ei ethol mewn cyfarfod yn y Rali Ewropeaidd. Llongyfarchiadau mawr i ti Gwennan.

Yn y Rali Ewropeaidd roedd Enfys Hatcher a Arwel Jenkins o glwb Llanwenog a Emyr Lloyd o glwb Tregaron yn cynrhychioli Cymru. Yno roeddent yn blasu bwydydd traddodiadol glwedydd eraill ac yn cymdeithasu mewn gwahanol gweithgareddau.

Erbyn nawr mae blwyddyn y CFFI wedi ail-ddechrau ac hoffwn estyn croeso i unrhyw aelod newydd. Am ragor o wybodaeth ar y clybiau sydd yn agos i chi, cysylltwch efo'r swyddfa ar:- 01545 571333.

Cynhaliwyd AGM Blynnyddol CFFI Ceredigion nos Fercher yr 21ain o Fedi yn Neuadd Ciliau Aeron. Cyhoeddwyd taw Llywydd y Sir am y flwyddyn 2011/12 oedd Eifion Morgans, Cefnmaes, Mydroilyn, Is-Lywydd- Dan Davies, Dihewyd. Cadeirydd y Sir am y flwyddyn bydd Manon Richards gyda'i is-lywydd sef Emyr Lloyd.

Clwb 200 Mis Awst:- 1af- Evan Lloyd, Abertawe; 2il- Rhian Thomas, Plwmp; 3ydd- Manon Richards, Lowtre. Mis Medi:- 1af- Margaret Jones, Rhydlewis; 2il- Arwyn Davies; 3ydd- Ian Evans, Llanfair Clydogau.

Dyddiadur CFFI:- Hydref 13/14/15- Sioe Dathlu 70 blynedd, Theatr Felinfach. Archebwch tocynnau o'r theatr. 26ain - Hyfforddiant Barnu Carcas. Tachwedd 6ed- Cyfeliadau Teithiau Tramor, 10/12- Eisteddfod y Sir, Pafiliwn Pontrhydfendigaid. 23ain- Lawnsio Llyfr Dathlu.

YSWIRIANT FUW

Yswiriant Fferm,
Busnesau, Ceir a Thai



Arbenigedd lleol
Polisiâu at bopeth
Prisiau cystadleuol

Dewch i drafod eich anghenion gyda

Alan Jacob 07968 371823 / 01570 481361
neu

Gwion James 07980 608337 / 01570 480623

Yn swyddfa Yswiriant FUW,
Sgwar y Mart, Llanbydder

Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei sefydlu'n rhyngwladol
Awdurdod y Gwasanaethau Arianol, yng ngyddestun cyfyngedig yswiriant,
o dan Rôl Cofrestru, 308039

Cymdeithas Amaethyddol Llanbedr Pont Steffan

Mae angen YSGRIFENNYDD ar y
Gymdeithas uchod i gyflawni gwaith y
Pwyllgor a'r Sioe Flynnyddol ym mis Awst

Telir cydnabyddiaeth i'r ymgeisydd
llwyddiannus

Am wybodaeth pellach, cysylltwch â'r
Cadeirydd - Gareth Russell ar 01570 423 396

Ceisiadau drwy lythyr at y Cadeirydd:
Bryncelyn, Cwmann, Llanbedr Pont Steffan,
Sir Gâr SA48 8EU

Dyddiad Cau: 25ain Hydref 2011

Mwnci ffwnci



Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.

Sioned Green
a Mared Jones
Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llambod

☎01570 423135
☎07811917799 /
07968821035
✉mwnciffwnci@hotmail.com

PLANHIGFA GRANNELL NURSERY

Capel y Groes,
Llanwnnen
SA48 7LE
01570 434548

www.grannell-nursery.co.uk

Planhigion llysiau, lluosflwydd,
blodau'r haf a'r gaeaf, perlysiâu,
coed ffrwythau a mwy!

Dydd Mawrth i Ddydd Sadwrn
10yb ~ 5yp
Dydd Sul 10yb ~ 4yp

CEGIN GWENOG

Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwygo cyflawn ar
gyfer pob achlysur

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes



Bwydlenni unigol i ateb eich gofynion
chi - boed yn fawr neu'n fach

Mair Hatcher
01570 481230 / 07967 559683

Cwrtnewydd

Ysgol Cwrtnewydd

Ar ôl saith wythnos o wyliau haf rhaid oedd dychwelyd i'r ysgol am flwyddyn academiaidd newydd. Croesawyd tair disgybl newydd i'n plith sef Clodagh, Katy a Macy, croeso cynnes i'r dair ac erbyn hyn mae'r merched yn ran o fywyd prysur Ysgol Cwrtnewydd.

Yn ystod y gwyliau cynhaliwyd sioeau Cwmsychpant a Gorsgoch. Bu'r plant yn brysur cyn y gwyliau yn lluniadu ac ysgrifennu ar gyfer y cystadlaethau.

Dyma ganlyniadau'r plant:- Sioe Cwmsychpant: Llawysgrifen dan 8 oed 2il a 3ydd Arwel Williams; Llawysgrifen 8 -12 oed 1af Alpha Jones; Peintio Llun plant blwyddyn 2 ac iau 1af Phoebe Prater, 2il Lisa Jenkins, 3ydd Carwyn Davies; Peintio Llun plant 5 a 6 1af Gethin Morgans, 2il Haylie Cook.

Sioe Gorsgoch: Llawysgrifen blwyddyn 3 a 4 1af Madeleine Smith, 3ydd Hanna Davies; Peintio Llun plant derbyn 3ydd Sophie Weedon; Peintio Llun blwyddyn 1 a 2 1af Nia Morgans, 2il Skye Binding, 3ydd Lois Jones; Peintio Llun blwyddyn 3 a 4 1af Beca Jenkins, 3ydd Libby Waterman.

Etholwyd cyngor newydd yr ysgol ac erbyn hyn Cerys Pollock yw'r Gadeiryddes a Gethin Morgan yn Is-Gadeirydd. Yn cadw cofnodion mae Madeleine Smith ac yn drysodrydd mae Owian Jones. Aelodau y pwyllgor ar gyfer plant y cyfnod sylfaen yw Danny Waterman a Lisa Jenkins ar gyfer plant blwyddyn 3 a 4 mae Hanna Davies a Beca Jenkins ac yn cynrychioli blwyddyn 5 a 6 mae Elin Davies a

Morgan James. Llyfrgellydd yr ysgol am y flwyddyn yw Owen Schroder.

Ail ddechreuwyd cynllun Coop lle mae plant blwyddyn chwech yn gyfrifol am dderbyn archebion ffrwythau a llysiau ac yna yn eu dosbarthu ar ddydd Mercher.

Croesawyd Mari o Arad Goch i'n plith, bydd Mari yn cynnal sesiynnau actio gyda phlant blwyddyn 3, 4, 5 a 6 yn ystod y tymor.

Byddwn yn cynnal ein cwrdd diolchgarwch eleni yng Nghapel y Bryn, Cwrtnewydd ar Hydref 19eg am 1.30y.p Croeso cynnes i chi ymuno gyda ni.

Llongyfarchiadau i Mr Alwyn Ward, Pennaeth yr ysgol ar gael ei benodi yn Bennaeth Ysgol T. Llew Jones ym Mrynhoffnant. Bydd yn cychwyn ar ei ddyletswyddau ym mis Ionawr 2012.

Seren Radio

Yn ystod y mis clywyd Mrs Nell Price, Castle Green yn siarad am ei phrofiadau yn gwerthu nwyddau AVON ar Radio Cymru. Mae wedi bod wrthi yn gwneud y gwaith am dros 40 mlynedd. Da iawn Nell!

Priodas Aur

Ar ddiwedd mis Medi dathlodd Lloyd ac Anne Thomas, Milford ei Priodas Aur. Gobeithio eich bod wedi mwynhau'r dathlu. Dymuniadau gorau i chwi eto am nifer fawr o flynyddoedd.

Aelwyd newydd

Croeso i breswylwyr newydd Glasnant. Gobeithio byddwch yn hapus yn ein plith.

Ffarmers

Cyfarchion

Llongyfarchiadau i Gareth a Kelly, Tregaron, ar enedigaeth eu merch fach, Poppy, a anwyd ar y 10fed o Fedi. Chwaer fach i Brook, ac wyres i Alun a Beryl Thomas, Bryndolau. Hefyd i Arwyn a Lowri, Pentredafis Gât, ar enedigaeth mab bach, Tomos Osian William, ar y 14eg o Fedi. Wyr bach i Eifion a Ethel, Llys Helen a Garnet a Jean, Tynwaun.

Cyfarchion Penblwydd



Llongyfarchiadau i Gwyneth Davies, Maesisaf, Annie Jenkins, Min y Dderwen a Eirwen Thomas, Ty'r rheol, y tair ohonynt wedi dathlu eu penblwydd yn bedwar ugain oed yn ystod yr wythnosau diwethaf. Yn y llun, gwelir hwy yn mwynhau eu hunain fel gwesteion arbennig yn y Carnifal a Mabolgampau blynyddol yn Ffarmers ym mis Awst.

Neuadd Bro Fana

Cynhaliwyd noson Caws a Gwin yn y Neuadd ar nos Sadwrn, yr 17eg o Fedi, a daeth criw da ynghyd i fwynhau'r noson, a chwilio drwy'r llwyth o luniau o Ysgol Ffarmers sydd wedi dod i law yn ddiweddar. Diolch i bawb am eu cefnogaeth. Cynhelir Cyfarfod Cyhoeddus Cyffredinol Blynyddol y Neuadd ar Nos Fawrth, yr 11eg o Hydref yn y Neuadd am 8.30. Bydd Noson Rasio Parlwr yn Y Drovers Arms ar Nos Wener, yr 11eg o Dachwedd yng ngofal Gwynne Davies, Godre'r Garth, Llanddewi Brefi; a Darlith ar Dan Jenkins yn y Neuadd ar y 14eg o Dachwedd gan Alan Leech o Lanfair Clydogau.

Sioe Cao a Llanycrwys

Cynhaliwyd y Sioe Flynyddol ar y 3ydd o Fedi ar Barc Bro Fana, ac yn y Neuadd. Y Llywydd eleni oedd Sid Mason, Bryndolau (Brownhill gynt), a Swyddogion y Sioe yw Ethel Davies, Cadeirydd; Judy Warner, Is-gadeirydd; Joan Stacey a Karen Stacey, Ysgrifennyddion a Gwyneth Richards, Trysorydd. Er gwaethaf y tywydd, cafwyd cefnogaeth arbennig gyda'r Neuadd wedi denu cystadleuaeth frwd yn y cynnyrch fferm a gardd, blodau, trefnu blodau, crefftai, diwydiannol a choginio, ffotograffiaeth, ac adrannau'r plant. Daeth yna lu o gystadleuwyr a stoc i'r adrannau defaid, ynghyd a chystadleuwyr yn yr adrannau cŵn a cheffylau. Diolch i bawb am eu cefnogaeth parod i'r sioe flynyddol eleni eto.

Carnifal



Llun o'r Carnifal Blynyddol gyda (o'r chwith i'r dde) Rhys Jones, Y Tywysog Bach; Sara Jones, Morwyn; Rhodri Morgan, Macwy; Lisa Jones, Brenhines y Blodau a Niah Bouvet, Morwyn; ynghyd a Llywyddion y Dydd, Elgan a Mary Jones, Tremavon. 'Roedd yr hanes yn y rhifyn diwethaf.

Sarn Helen



Ras 10K Abergwaun a Daniel Hooper yn gorffen yn ail mewn 36 munud 36 eiliad, 3ydd Michael Davies 37 munud 04 eiliad, 5ed Gethin Jones 37 munud 24 eiliad, 10 Eric Rees 39 munud 25eiliad, 16 Simon Hall 41 munud 33 eiliad, 32 Dawn Kenwright 46 munud 02 eiliad, 33 Gareth Jones 46 munud 23 eiliad, 49 Dee Jolly 57 munud 41 eiliad, 58 Allen Watts awr 25 munud 36 eiliad.

Dydd Sadwrn gwyl banc Awst oedd ras Beca ar fynydd Preseli a Glyn Price yn gorffen yn 8fed mewn 40 munud 02 eiliad, 9 Andrew Abbot 40 munud 40 eiliad, 16 Michael Davies 42 munud 25 eiliad, 24 Eric Rees 43 munud 35 eiliad, 36 Richard Marks 46 munud 14 eiliad, 38 Tony Hall 46 munud 35 eiliad, 56 Jessica Leitch 49 munud 07 eiliad, 57 Huw Price 49 ,munud 08 eiliad, 75 Gareth Jones 53 munud 42 eiliad, 87 Aneurin James 58 munud 36 eiliad, a 98 Sian Jenkins awr 07 munud 40 eiliad. Hefyd roedd ras y mochyn du i'r plant, cystadloedd Dafydd Lewis, Matt Small a Lowri Lewis yn y ras o dan 11. Dydd Sul roedd ras 10k St Clears, Carwyn Thomas yn gorffen yn 5ed 38 munud 11 eiliad, 11 Llewelyn Lloyd 39 munud 41 eiliad, 15 Eric Rees 41 munud 10 eiliad, 22 Simon Hall 42 munud 22 eiliad, 26 Tony Hall 43 munud 08 eiliad, 40 Steffan Jones 46 munud 26 eiliad, 46 Ceiron Jenkins 47 munud 20 eiliad a 90 Allen Watts awr 21 munud 36 eiliad.

10K Bae Abertawe Glyn Price 35 munud 14 eiliad, Gethin Jones 37 munud 29 eiliad, Richard Marks 38 munud 12 eiliad, Mark Dunscombe 39 munud 42 eiliad, Huw Price 40 munud 29 eiliad, Tony Hall 41 munud 30 eiliad, Simon Hall 42 munud 02 eiliad, Aneurin James 52 munud 43 eiliad, Sian Roberts-Jones 54 munud 43 eiliad, a Allen Watts awr 35 munud.

Bu Dawn Kenwright yn cystadlu mewn hanner marathon Llyn Vyrnwy ac yn gorffen y ras yn gyntaf menywod 55 mewn awr 37 munud a 39 eiliad, ac bu Haydn Lloyd yn ras fynydd Llyn y Fan ac yn gorffen mewn 63 munud 47 eiliad.



Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.


Annwyl Ffrindiau

Helo blant, sut ydych chi? Wel mae'r Hydref wedi cyrraedd ac mae Morus y gwynt wedi bod y chwythu'r dail i bob man. Ydych chi wedi sylwi bod rhywbeth wedi digwydd i liw y dail?

Bu llwyth ohonoch chi yn brysur iawn gyda'ch craeonau yn ystod y mis diwethaf yn lliwio llun y plant ar fws yr ysgol ac mae'n rhaid dweud, roedd pawb wedi gwneud ymdrech wych. Da iawn chi gyd! Rhaid canmol Elain Fflur Williams o Lanybydder ac Ellie Lona Gorman, Penparcau am luniau gwych. Ond yr enillydd y mis hwn yw Owain Jacob, Frondeg, Pencarreg, Llanybydder. Llongyfarchiadau mawr i ti Owain a phawb arall wnaeth gystadlu. Ewch ati nawr i liwio llun fy ffrindiau gorau yn cael eu chwythu o gwmpas yng ngwynt yr Hydref. Danfonwch nhw ataf i mewn da bryd erbyn 24ain Hydref.

Hwyl am y tro,

Lincyn Lincyn



**Enillydd
y mis!**

Owain
Jacob



Enw:

Oed:

Cyfeiriad:

Gwasanaeth Gwybodaeth Ceredigion

i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd

- Chwilio am ofal plant?
- Eisiau gwybod sut i fod yn ofalwr/wraig plant?
- Chwilio am weithgareddau plant a phobl ifanc, eisiau mwy o wybodaeth.

**Cysylltwch â ni am fanylion
pellach**



Ffôn/Phone:
01545 574187

E-bost/E-mail:
cis@ceredigion.gov.uk

Gwefan/Website:
<http://cis.ceredigion.gov.uk>

Neuadd Cyngor Ceredigion
County Council Offices,
Penmorfa,
Aberaeron,
Ceredigion,
SA46 0PA



Haelioni



Betty Evans a Lynne Thomas o fanc HSBC yn cyflwyno sic o £500 i Carys Davies, Cadeirydd Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Carreg Hirfaen, Cwmann, Llanbedr Pont Steffan. Cynhaliwyd Dawns Haf yn ddiweddar yng Ngholeg y Drindod Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan. Gwnaethpwyd dros £4000 o elw. Diolch i HSBC am ei cyfraniad. Yn y llun hefyd mae Aled Evans, Prifathro; Ann Herbert, Ysgrifenyddes CRhA; Lydia James, Trysorydd CRhA; a rhai o ddisgyblion Carreg Hirfaen.



John Penri Jones, Cadeirydd 'Côr Cardi-Gân' yn trosglwyddo sic o £800.00 ar ran y côr i Arwyn a Betty Davies ar ran Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint, sef elusen y côr eleni. Casglwyd yr arian mewn cyngerdd a drefnwyd gan y côr ddechrau'r flwyddyn.



Cafodd Apêl Elain ei gychwyn gan Gareth a Bridget James rhieni Elain er mwyn codi arian i bedair elusen fu'n gyfrifol am roi'r gofal gorau i Elain a hwythau yn ystod eu hamser yn yr ysbyty. Gan fod Gareth wedi ei fagu ym mhentref Cwmann penderfynnodd ei rieni John a June James gyda help ffrindiau agos drefnu gweithgaredd er mwyn rhoi hwb arianol i'r apêl. Ym mis Ebrill gofynnwyd iddynt drefnu Taith Tractorau o Gwmann lle llwyddwyd i godi £2,265; ac yna ym mis Mehefin cafwyd 'Noson Apêl Elain' yn Neuadd Sant Iago, Cwmann gyda'r Band Free Beer, Rhostio Mochyn gan Neil Wilson a gwledd o fwyd, y cyfan wedi eu cyfrannu at y noson, ynghyd ac ocsiwn lwyddiannus a raffl. Daeth cyfanswm y noson i £7,040.11, a diolch yn fawr i Lowri Davies Banc Barclays am gyfrannu £750 gyda'r cynllun punt am bunt, i wneud cyfanswm o £10,055.11. Dymunwn fel teulu ddiolch o galon i bawb am eu gwaith caled, eu cefnogaeth a'u haelioni i sicrhau llwyddiant i'r achos teilwng yma. Hyd yn hyn mae cyfanswm Apêl Elain dros £40,000 gyda chwpwl o ddigwyddiau eto i ddod cyn diwedd y flwyddyn.

Eisteddfod Ddwl Papurau Bro Ceredigion



Cynhaliwyd Eisteddfod Ddwl Papurau Bro Ceredigion yn Neuadd Felin-fach Nos Wener 9fed Medi. Rhan o fenter Fforwm Papurau Bro Ceredigion oedd hyn er mwyn ceisio annog cydweithio rhwng swyddogion yr holl bapurau yn y sir. Er y rhannu syniadau a fu rhwng y papurau dros y blynyddoedd diwethaf, cystadlu yn erbyn ei gilydd oedd y nôd ar y noson hon.

Trefnwyd y noson ar y cyd rhwng Megan Jones, Papur yr Angor a swyddogion Cered. Daeth tyrfa dda ynghyd, a chafwyd noson o adloniant yng nghwmni cystadleuwyr o sawl papur gan gynnwys Yr Angor, Y Ddolen, Llais Aeron, Y Garthen a Clonc.

Y beirniad gwadd oedd Dewi Pws a chyflwynwyd yr eitemau gan Geraint Lloyd.

Cystadleuaeth gyntaf y noson oedd dweud Stori Gelwydd a daeth Eifion Davies, Drefach yn drydydd. Daeth Emyr Jenkins, Llanybydder yn ail wrth ganu'r organ geg ac Einir Ryder, Cwmsychbant yn drydydd yn darllen darn heb ei atalnodi.

Daeth tipyn o lwyddiant i Clonc hefyd yn y cystadlaethau gwaith cartref. Cafodd Dylan Lewis, Cwmann gyntaf ac ail yng nghystadleuaeth



ysgrifennu slogan i hysbysebu papur bro ac yng nghystadleuaeth i ysgrifennu portread aelod o'r teulu i rai dan 18 oed daeth Morgan Lewis, Cwmann yn gyntaf a Mari Lewis, Cwmann yn ail.

Uchafbwynt y noson oedd cystadleuaeth y sgets. Actorion Yr Angor oedd y cyntaf ar y llwyfan gyda sgets wedi ei lleoli mewn pwyllgor blynyddol. Roedd y gynulleidfa yn rowlio chwerthin ar y cymeriadau doniol yn pwysu a mesur llwyddiannau'r papur bro. Sgets Clonc oedd wedyn gydag Einir Ryder, Cwmsychbant; Enfys a Gwawr Hatcher, Gorsgoch; Heilyn Thomas, Llanwnnen ac Arwel Jenkins, Llanybydder yn actio. Golygfa wrth osod papur bro yn yr hen ffordd o dorri a gludo oedd gan Clonc. Sgets a ysgrifennwyd gan Dylan Iorwerth, Llanwnnen. Cafwyd tipyn o sbri yn eu gwyllo yn ymbalfalu dros ei gilydd a gwneud sbort ar bapurau bro eraill. Roedd gwyllo Arwel yn actio fel babi yn ei gwyn yn ddoniol iawn. I gloi'r gystadleuaeth wedyn daeth tair gwaig werinol o bapur Llais Aeron i'r llwyfan gan ddarllen y papurau bro ac adrodd penillion yn llawn hiwmor. Roedd Dewi Pws wedi ei blesio'n arw. Yn y gystadleuaeth hon, Yr Angor aeth â hi, Llais Aeron yn ail a Clonc yn drydydd.

Ond pa bapur enillodd Darian Y Lofa ar ddiwedd y noson am y marciau uchaf? Roedd hi'n agos iawn iawn, ond Clonc enillodd yr eisteddfod gyda'r Angor yn ail gyda dim ond marc o wahaniaeth a Llais Aeron yn drydydd.

Buddugoliaeth i Bapur Bro Clonc. Llongyfarchiadau i bawb a fu'n cystadlu a diolch i bawb a fu'n cefnogi ac yn cynorthwyo.

Yn Eisteddfod Tregaron Dydd Sadwrn Medi 10fed bu dwy ffrind yn llwyddiannus iawn - Meleri Davies, Cwmsychbant yn ennill ar yr Unawd 15-18 a Lowri Elen, Llambod ar yr Unawd 12-15; y Llefaru 12-15 ac Unawd Cerdd Dant dan 18oed.

Eisteddfod Tregaron

